10 Chwefror 2015

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

Aelodau tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru oedd Nigel Blewitt, Sophie Knott a Jeremy Morgan, dan gyfarwyddyd Matthew Mortlock.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2015

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost info@wao.gov.uk

# Cynnwys


Crynodeb 7

Argymhellion 12

1 Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi gwneud defnydd helaeth o ymadawiadau cynnar i helpu i leihau cost y gweithlu 14

Rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013, fe adawodd 10,658 o staff eu cyflogaeth drwy ymadawiad cynnar, sy'n cyfateb i tua un o bob 25 o'r gweithlu 15

Roedd y costau a dalwyd ymlaen llaw ar gyfer pecynnau ymadael cynnar yn dod i gyfanswm o £254 miliwn rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013 20

Ar yr amod nad oedd staff yn cael eu penodi yn lle'r rhai a ymadawodd, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, byddai cyrff cyhoeddus yn dechrau arbed costau yn sgil ymadawiadau cynnar ar ôl 10 mis ar gyfartaledd 24

Er nad yw'n glir faint yn union yw cyfraniad ymadawiadau cynnar, fe ostyngodd costau cyflogau staff yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru o ryw £447 miliwn mewn termau real rhwng 2009-10 a 2013-14 28

Mae cyrff cyhoeddus wedi defnyddio sawl dull arall yn ogystal ag ymadawiadau cynnar er mwyn rheoli neu leihau costau'r gweithlu a'r un a ddefnyddiwyd fwyaf yw rheoli swyddi gwag 31

Roedd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn rhagweld y byddent yn rhedeg cynlluniau ar gyfer ymadael yn gynnar yn 2014-15 a hefyd yn defnyddio dulliau eraill i reoli neu leihau costau'r gweithlu 34

2 At ei gilydd, mae'n ymddangos bod ymadawiadau cynnar wedi cael eu llywodraethu'n dda, er nad oedd pob cynllun yn cydymffurfio'n llawn ag egwyddorion arferion da 35

Mae'r rhan fwyaf o ymadawiadau cynnar yn digwydd yn unol â chanllawiau neu ddeddfwriaeth sy'n benodol i'r sector dan sylw ac yn unol hefyd â pholisïau a gweithdrefnau lleol 36

Er bod cyrff cyhoeddus at ei gilydd wedi cadw mewn cof yr angen i gynllunio eu gweithlu wrth iddynt ystyried effaith ymadawiadau cynnar, mae rhai wedi defnyddio meini prawf mwy trwyadl wrth wneud achosion busnes na'i gilydd 39

Roedd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn defnyddio cynghorwyr neu aelodau bwrdd mewn rhyw fodd i graffu ar drefniadau ymadael cynnar 42

Dim ond 55 y cant o'r cyrff cyhoeddus a ddywedodd eu bod wedi cynnal rhyw fath o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y cynllun ymadael cynnar a ddefnyddient amlaf 43

Cafwyd cytundeb setlo mewn rhyw un o bob pump o ymadawiadau cynnar ond dim ond mewn saith y cant o'r achosion hynny y gwnaed taliad ychwanegol; roedd y gost yn rhyw £20,000 ar gyfartaledd 45

Mae amryw o wahanol gyfyngiadau ar ailgyflogi pobl sy'n ymadael yn gynnar o gyrff cyhoeddus yng Nghymru 47


Roedd ansawdd y data ar gyfer ymadawiadau cynnar yn y gwahanol gyrff cyhoeddus yn anghyson 48

Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau archwilio 50

Atodiad 2 – Dadansoddiad o'r data ar ymadawiadau cynnar 55

# Adroddiad cryno



# Crynodeb

1 Mae sefydliadau'r sector cyhoeddus wedi parhau i wynebu pwysau ariannol ac wedi gorfod gwneud arbedion cost sylweddol yn dilyn adolygiadau gwariant Llywodraeth y DU yn 2010 a 2013. Rhwng 2010-11 a 2015-16, gwelwyd gostyngiad o £1.7 biliwn mewn termau real[1] yn y gyllideb a ddyrannwyd i Lywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU.

2 I'r rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus, y brif gost y gallant ei rheoli yw eu bil cyflogau. Yn anochel, felly, bu'n rhaid i'r gwasanaethau cyhoeddus ystyried ffyrdd o dorri costau staff fel rhan o'r ymdrech i gyrraedd targedau mwy cyffredinol o ran arbed arian, drwy dalu llai a/neu gyflogi llai o bobl neu eu cyflogi am lai o oriau. Un ffordd o leihau nifer y staff yw trwy hyrwyddo 'ymadawiadau cynnar' drwy gyfrwng cymhelldal neu 'becyn ymadael'. Yna bydd cyflogeion yn ymadael a disgwylir y bydd y sefydliad sy'n eu cyflogi yn gallu arbed arian yn y tymor hwy.

3 Yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011*[2] fe nodwyd y byddai rhewi cyflogau a recriwtio yn y sector cyhoeddus, ynghyd ag ymadawiadau cynnar, yn helpu i bontio'r agendor ariannol a wynebai'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ond bod angen cynllunio'r gweithlu a chyfathrebu'n effeithiol er mwyn rheoli'r risgiau cysylltiedig. Ymhlith y risgiau hyn y mae'r posibilrwydd y bydd y cynlluniau'n arwain at fylchau sgiliau – ac y bydd yn rhaid llenwi'r bylchau a hynny'n arwain at gost ychwanegol, efallai – a'r effaith gyffredinol ar y modd y darperir gwasanaethau. Nododd yr adroddiad hefyd fod costau sylweddol i'w talu ymlaen llaw pan gymerir y camau hyn a'i bod yn gallu cymryd peth amser i'r arbedion wrthbwyso'r costau cychwynnol.

4 Yn ymarferol, mae sawl enw'n cael ei roi ar ymadawiadau cynnar. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r termau ymadael gwirfoddol, diswyddo gwirfoddol, diswyddo gorfodol ac ymddeol yn gynnar wrth gyfeirio at y pedwar prif fath o ymadawiad cynnar (Blwch 1). Fodd bynnag, gall sefydliadau ddefnyddio eu termau eu hunain i ddisgrifio'r pedwar math hyn o ymadawiad. Yn gyffredinol, mae ymadael gwirfoddol yn golygu telerau mwy ffafriol na diswyddo gwirfoddol, sydd yn ei dro yn golygu termau mwy ffafriol na diswyddo gorfodol.

1 *Datganiad Ysgrifenedig - Cylch Gwariant Llywodraeth y DU 26 Mehefin 2013,* Llywodraeth Cymru, Mehefin 2013. I'w weld yn http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/spendinground2013/?skip=1&lang=cy.

2 *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011,* Swyddfa Archwilio Cymru, Hydref 2011.

| Blwch 1 – Mathau o ymadawiad cynnar |
| --- |
| **Ymadael gwirfoddol:** Gellir cynnig cyfle i bobl ymadael yn wirfoddol er mwyn gwneud y gweithlu'n fwy effeithlon a lle bo cyflogwyr yn dymuno lleihau nifer y staff, neu er mwyn helpu i gyflawni newidiadau mewn sefydliad. Nid yw unigolion yn gorfod derbyn y cynnig. Mae gan gyrff cyhoeddus hyblygrwydd mawr o ran y trefniadau a'r taliadau a gynigir. Gelwir hyn weithiau yn adael swydd yn gynnar o wirfodd. |
| **Diswyddo gwirfoddol:** Cynigir diswyddo gwirfoddol i staff lle mae perygl y bydd eu swydd yn cael ei dileu, gan ymgynghori'n ffurfiol drwy'r undebau llafur. Er nad yw unigolion yn gorfod gofyn am ddiswyddiad gwirfoddol, gellir eu diswyddo'n orfodol yn nes ymlaen. Gelwir hyn weithiau'n ddiswyddo hyblyg. |
| **Diswyddo gorfodol:** Gellir dewis unigolion i'w diswyddo'n orfodol ar ôl iddynt gael cynnig diswyddiad gwirfoddol. Fel rheol, dyna pryd y cânt y telerau lleiaf ffafriol o ran tâl. |
| **Ymddeol yn gynnar:** Gall unigolion ymddeol cyn yr oed safonol a derbyn cyfandaliad a/neu ychwanegiadau at eu pensiwn. |

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru a Chynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil*

5 Yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth y DU, cyflwynwyd gofynion newydd ar gyfer datgelu cyfrifon ariannol o 2010-11 ymlaen, mewn perthynas â phob 'pecyn ymadael' pan fydd pobl yn ymadael yn gynnar. Mae'r rhain yn berthnasol i Lywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir gan y Llywodraeth. O dan y gofynion hyn mae'n rhaid datgelu nifer y pecynnau ymadael cynnar fesul band cost a chyfanswm y gost ym mhob blwyddyn ariannol. Mae'r gofyniad hwn hefyd yn rhan o God Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol, 2010-11[3] ac mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys yr un gofyniad yn ei chyfarwyddyd i gyrff y GIG yng Nghymru ar gyfer cadw cyfrifon, o 2010-11 ymlaen.

6 Ym mis Mai 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Gweithio gyda'n Gilydd dros Gymru – Fframwaith Strategol ar gyfer Gweithlu'r Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru*. Mae'r strategaeth yn amlinellu lle canolog y gweithlu er mwyn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Nodir hefyd yr egwyddorion y bydd Llywodraeth Cymru yn eu dilyn mewn perthynas â materion y gweithlu. Y ddwy brif flaenoriaeth sydd i'w gweld yn y fframwaith strategol yw 'creu gweithlu llawn brwdfrydedd a chymhelliant sy'n perfformio'n dda' a 'denu a chadw talent'. Os cânt eu rheoli'n dda, gall ymadawiadau cynnar helpu i gyflawni'r amcanion hyn.

3 Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), a Phwyllgor Ymgynghorol Cyfrifon Awdurdodau Lleol (Yr Alban) (LASAAC).

7 Cafwyd adroddiad yn ddiweddar gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol[4] ynghylch y trefniadau ymadael yn gynnar yn adrannau llywodraeth ganolog y DU, ac adroddiad gan Audit Scotland[5] am y trefniadau yn sector cyhoeddus yr Alban. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd wedi rhoi adroddiad ar drefniadau o'r fath ar gyfer uwch swyddogion y BBC[6]. Mae adroddiadau Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin a Phwyllgor Archwilio Cyhoeddus Senedd yr Alban wedi cadarnhau canfyddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac Audit Scotland. Tynnwyd sylw yn yr adroddiadau hyn at amryw o wendidau ac anghysonderau yn y modd y rheolir ymadawiadau cynnar.

8 Yng Nghymru, cafwyd cyhoeddusrwydd negyddol ynglŷn ag ymadawiadau cynnar mewn nifer o gyrff cyhoeddus. Yn 2011, beirniadwyd trefniadau ymadael yn gynnar Llywodraeth Cymru mewn adroddiad gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol[7] a oedd yn sôn am niferoedd a chostau staff. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad oedd fawr ddim tystiolaeth fod adrannau Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth ddigonol i ymadawiadau cynnar er mwyn sicrhau nad effeithid yn ormodol ar unrhyw adran yn sgil lleihad yn nifer y staff.

9 Cafwyd cyhoeddusrwydd negyddol hefyd yn ddiweddar ynglŷn â'r defnydd o gytundebau setlo[8] a 'chymalau cau ceg' oddi mewn i drefniadau ymadael yn gynnar. Mewn adroddiad yn 2013, canfu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol nad oedd digon o dryloywder, cysondeb nac atebolrwydd pan ddefnyddid cytundebau setlo yn y sector cyhoeddus ac nid oes llawer o ddim byd yn digwydd i newid hyn[9].

10 Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, aeth tîm o Swyddfa Archwilio Cymru ati i geisio darganfod a all cyrff cyhoeddus Cymru brofi eu bod yn cael gwerth am arian drwy ddefnyddio ymadawiadau cynnar i reoli neu leihau costau'r gweithlu. Rhwng Chwefror a Mehefin 2014, fe wnaethom gynnal arolwg o 58 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, y GIG, awdurdodau'r parciau cenedlaethol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub a 'chyrff cyhoeddus eraill'. Yn ein harolwg, ceisiwyd gwybodaeth am y defnydd o ymadawiadau cynnar a threfniadau mwy cyffredinol y cyrff dan sylw i leihau neu reoli costau gweithlu yn y blynyddoedd diwethaf. Gofynasom hefyd am ddata ynghylch yr holl becynnau ymadael cynnar unigol y cytunwyd arnynt rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Rhagfyr 2013. Mae manylion llawn am ein dulliau i'w gweld yn Atodiad 1.

11 Yn yr adroddiad hwn ceir adolygiad lefel uchel, yn seiliedig i raddau helaeth ar ganfyddiadau'r arolwg hwnnw ond gan ddefnyddio hefyd, lle bo hynny'n berthnasol, dystiolaeth ychwanegol a gafwyd drwy ein gwaith archwilio arferol. Nid ydym wedi archwilio rheoleidd-dra na phriodoldeb pecynnau ymadael cynnar unigol fel rhan o'r gwaith i gynhyrchu'r adroddiad hwn. Er hynny, mae ambell enghraifft yma ac acw, y bu sôn mawr amdanynt, lle mae archwilwyr wedi adolygu trefniadau pecynnau ymadael unigol ar gyfer uwch swyddogion.


4 *Managing early departures in central government*, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Mawrth 2012.
5 *Managing early departures from the Scottish public sector*, Audit Scotland, Mai 2013; *Scotland's public sector workforce*, Audit Scotland, Tachwedd 2013.
6 *Severance payments and wider benefits for senior BBC managers*, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Mehefin 2013.
7 *Ymchwiliad i niferoedd a chostau staff Llywodraeth Cynulliad Cymru*, Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mawrth 2011.
8 Roedd cytundebau setlo yn arfer cael eu galw'n gytundebau cyfaddawdu nes i Adran 23 y Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio ddod i rym ar 29 Gorffennaf 2013.
9 *Confidentiality clauses and special severance payments*, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Mehefin 2013.

12 **Cawsom fod cyrff cyhoeddus Cymru wedi gwneud defnydd helaeth o ymadawiadau cynnar, ymhlith llawer o fesurau eraill, i helpu i leihau cost y gweithlu. Rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013, fe ymadawodd 10,658 o staff o'u cyflogaeth yn gynnar ac roedd cost hynny yn dod i ryw £254 miliwn (Ffigur 1). Mae'r ffigurau a welir yng nghyfrifon diwedd blwyddyn cyrff cyhoeddus ar gyfer 2013-14 yn awgrymu, os cymherir y data hyn â'r rhai a adroddwyd i ni ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd Rhagfyr 2013, fod rhyw 2,300 yn ychwaneg o ymadawiadau cynnar yn chwarter olaf 2013-14.**

13 **Gan gymryd nad oedd staff eraill wedi'u cyflogi yn eu lle, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, gall cyrff cyhoeddus ddechrau arbed costau yn sgil ymadawiadau cynnar ar ôl 10 mis. Unwaith y bydd y cyfnod ad-dalu wedi dod i ben, gall cyrff cyhoeddus ddechrau gwneud arbediad net ar gyflog, cyfraniadau yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn y buasent wedi gorfod eu talu i'r staff a ymadawodd. Ar sail y data yn ein harolwg, mae'r arbedion potensial hyn yn dod i ryw £305 miliwn y flwyddyn, er na fydd cyrff cyhoeddus efallai yn sicrhau'r arbedion hyn yn llawn am amryw o resymau. Er nad yw'n glir faint yn union yw cyfraniad ymadawiadau cynnar, fe wnaeth costau cyflogau staff yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru leihau o ryw £447 miliwn mewn termau real rhwng 2009-10 a 2013-14.**

14 **At ei gilydd mae'n ymddangos bod llywodraethu boddhaol wedi digwydd o ran ymadawiadau cynnar, er na wnaeth pob cynllun gydymffurfio'n llawn ag egwyddorion arferion da. Er enghraifft, mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gyffredinol wedi ystyried effaith ymadawiadau cynnar wrth gynllunio eu gweithlu ond mae rhai wedi bod yn fwy trwyadl na'i gilydd wrth ddefnyddio meini prawf achos busnes.**

Ffigur 1 – Ymadawiadau cynnar fesul sector, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013




*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

# Argymhellion

## Argymhellion

Cawsom nad oedd pob corff cyhoeddus yn defnyddio achosion busnes ar gyfer pob ymadawiad cynnar unigol ac, ymhlith y rhai sy'n defnyddio achosion busnes, fod rhai yn defnyddio meini prawf mwy trwyadl na'i gilydd (paragraffau 2.18-2.20).

**A1 Dylai cyrff cyhoeddus ddefnyddio achosion busnes wrth ymdrin â phob ymadawiad cynnar unigol. Dylai'r achosion busnes ganfod beth yw cost ymadawiad yr unigolyn a beth yw'r goblygiadau o ran darparu gwasanaethau, gan ystyried hefyd sut y bwriedir cynllunio'r gweithlu yn fwy cyffredinol.**

Ar gyfer ymadawiadau gwirfoddol a diswyddo gwirfoddol, mae gan awdurdodau lleol hawl i wneud eu trefniadau eu hunain. Yn ymarferol, maent wedi defnyddio ystod o wahanol delerau ac amodau (paragraff 1.13). Gan fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i leihau nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru, mae'n debygol y bydd ymadawiadau cynnar yn rhan o unrhyw gytundebau a welir yn y dyfodol wrth uno awdurdodau.

**A2 Mewn cydweithrediad â llywodraeth leol, dylai Llywodraeth Cymru geisio cytuno ar rai egwyddorion cyffredin i fod yn sail i unrhyw drefniadau ymadael yn gynnar a ddaw yn sgil uno awdurdodau lleol.**

Mae'n bwysig craffu ar ymadawiadau cynnar er mwyn sicrhau bod y cynigion ar gyfer cynlluniau a hefyd ymadawiadau cynnar unigol yn rhoi gwerth am arian. Mewn dros dri chwarter y cyrff cyhoeddus, cawsom fod cynghorwyr neu aelodau byrddau yn chwarae rhyw ran yn y dasg o sicrhau gwerth am arian gydag ymadawiadau cynnar (paragraffau 2.25-2.26).

**A3 Rydym yn argymell y dylai corff cyhoeddus:**

- **Sicrhau bod cynghorwyr neu aelodau bwrdd yn cael cyfle i ystyried a yw cynlluniau ar gyfer ymadael yn gynnar yn rhoi gwerth am arian, trwy gyfrwng eu trefniadau craffu/llywodraethu presennol.**
- **Sicrhau bod cynghorwyr a/neu aelodau bwrdd yn cymeradwyo pecynnau mwy costus, fel y rhai ar gyfer uwch reolwyr.**
- **Ystyried defnyddio archwilwyr mewnol i roi sicrwydd bod yr holl gynlluniau ar gyfer ymadael yn gynnar yn cael eu rheoli'n ddigonol.**

Cawsom fod tuag un o bob pump o'r ymadawiadau cynnar yn cynnwys rhyw fath o gytundeb setlo a bod saith y cant o'r achosion hyn yn cynnwys taliad ychwanegol. Fodd bynnag, nid oedd pob corff cyhoeddus yn gallu dweud wrthym a oedd cytundeb setlo neu daliad ychwanegol yn rhan o'r trefniant gyda'u hymadawiadau cynnar (paragraffau 2.29-2.32).

**A4 Dylai cyrff cyhoeddus sicrhau, pan ddefnyddir cytundebau setlo, fod eu cofnodion yn dangos yn glir a yw'r pecyn yn cynnwys taliad ychwanegol ai peidio ac os felly faint yw ei werth a pham y cafodd ei roi.**

## Argymhellion

Cawsom nad oedd pob corff cyhoeddus oedd â chynllun ymadael yn gynnar yn gwneud rhyw fath o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Dylai asesiadau o'r fath sicrhau nad yw pobl sydd â'r nodweddion gwarchodedig yn dioddef anfantais nac allgau annheg (paragraffau 2.27-2.28).

**A5 Dylai cyrff cyhoeddus ystyried yn briodol beth yw effaith pob trefniant ar gyfer ymadael yn gynnar o safbwynt cydraddoldeb, yn enwedig os yw corff cyhoeddus yn gweithredu cynllun penodol lle gallai llawer o bobl ymadael.**

Cawsom, ar yr amod nad oedd staff yn cael eu penodi yn lle'r rhai a ymadawodd, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, y byddai cyrff cyhoeddus yn dechrau arbed costau yn sgil ymadawiadau cynnar ar ôl 10 mis ar gyfartaledd. Wedi i'r cyfnod ad-dalu hwn ddod i ben, gallai cyrff cyhoeddus arbed tua £305 miliwn y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd posibilrwydd na fyddai cyrff cyhoeddus yn sicrhau unrhyw arbedion o'r fath yn llawn, am amryw o resymau (paragraffau 1.18-1.23).

**A6 Dylai cyrff cyhoeddus fonitro'r arbedion a ddisgwylir ac a sicrheir yn sgil ymadawiadau cynnar a dylent roi adroddiad arnynt fel rhan o'u trefniadau llywodraethu mewnol. Bydd hyn o gymorth pan wneir cynlluniau i leihau costau yn y dyfodol.**

Cawsom fod ansawdd y data a gedwir gan gyrff cyhoeddus ar ymadawiadau cynnar yn anghyson. Ni allai nifer o gyrff cyhoeddus roi inni wybodaeth hollbwysig y gofynasom amdani (paragraff 2.37).

**A7 Dylai cyrff cyhoeddus adolygu eu trefniadau ar gyfer cadw cofnodion pan wneir trefniadau i staff ymadael yn gynnar, fel y bydd gwybodaeth hollbwysig wrth law ganddynt gan gynnwys nifer yr ymadawiadau cynnar mewn cyfnod penodol a chostau'r rhain, ynghyd â gwybodaeth am y cyfnod ad-dalu yn seiliedig ar gyflogau a chostau Yswiriant Gwladol a phensiwn y cyflogwyr a gwybodaeth am gytundebau setlo.**

# Rhan 1

## Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi gwneud defnydd helaeth o ymadawiadau cynnar i helpu i leihau cost y gweithlu



1.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn dadansoddi niferoedd a chost ymadawiadau cynnar mewn 58 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013 gan gynnwys y ddau fis hynny. Mae hefyd yn ystyried y cyfraniad a wnaeth ymadawiadau cynnar, a mesurau eraill, i ymdrechion cyrff cyhoeddus i reoli costau eu gweithlu. Rydym wedi seilio'r dadansoddiad hwn ar wybodaeth a roddwyd i ni gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru rhwng Chwefror a Mehefin 2014, ynghyd â data o ddatgeliadau cyfrifon blynyddol.

1.2 Yn Atodiad 1 ceir manylion pellach am ein dulliau archwilio ac eglurir pam y ceir rhywfaint o anghysondeb efallai rhwng y ffigurau a roddodd cyrff cyhoeddus i ni ar gyfer cyfnodau penodol a'r ffigurau a ddatgelwyd yng nghyfrifon y flwyddyn flaenorol. Yn Atodiad 2 ceir data ychwanegol ar gyfer cyrff cyhoeddus unigol. Yn ein dadansoddiad rydym wedi defnyddio'r amcangyfrifon gorau posibl ar sail y data sydd ar gael i ni.

## Rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013, fe adawodd 10,658 o staff eu cyflogaeth drwy ymadawiad cynnar, sy'n cyfateb i tua un o bob 25 o'r gweithlu

1.3 Rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013, cafwyd 10,658 o ymadawiadau cynnar o 58 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, sy'n cyfateb i tua phedwar y cant o'r gweithlu yn Ebrill 2010 (Ffigur 2). Roedd y rhan fwyaf o'r ymadawiadau cynnar (72 y cant) o'r awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol. Roedd cyrff y GIG yn cyfrif am 11 y cant a Llywodraeth Cymru yn cyfrif am naw y cant o'r ymadawiadau cynnar.

1.4 Fodd bynnag, mae'r 977 aelod o staff a ymadawodd yn gynnar o Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn yn cyfateb i ryw 15 y cant o'r nifer oedd yn gweithio yno yn Ebrill 2010. Mae hynny'n wahanol iawn i weithlu'r GIG, lle nad oedd y rhai a ymadawodd yn gynnar ond yn cyfrif am ryw un y cant o'r gweithlu. Mae peth amrywiaeth hefyd o fewn sectorau, gan fod y canrannau ar gyfer 'cyrff cyhoeddus eraill' yn amrywio o 0 i 27 y cant a'r canrannau yn yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn amrywio o un i wyth y cant.

Ffigur 2 – Ymadawiadau cynnar fesul sector, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013[1]

| | Awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol | Cyrff y GIG | Llywodraeth Cymru | Heddlu a thân ac achub | 'Cyrff cyhoeddus eraill'[3] | Pob sector |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ymadawiadau | 7,683 | 1,223 | 977 | 514 | 261 | 10,658 |
| Gweithlu ar y cychwyn – Ebrill 2010 (amcangyfrif nifer y staff)[2] | 165,900 | 88,100 | 6,400 | 22,000 | 3,300 | 285,800 |
| Nifer yr ymadawiadau fel canran o'r gweithlu yn Ebrill 2010 | 4.6% | 1.4% | 15.3% | 2.3% | 7.9% | 3.7% |

Nodiadau:

1 Fe wnaethom gyfrifo'r ffigur hwn gan ddefnyddio'r ffurflenni data a gyflwynwyd inni gan y 58 corff cyhoeddus yn ein harolwg, ac eithrio yn achos Cyngor Sir Caerfyrddin lle defnyddiasom ddatganiadau cyfrifon blynyddol 2010-11 i 2012-13. Gan hynny nid ydym wedi cynnwys unrhyw ymadawiadau ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin yn y cyfnod rhwng Ebrill a Rhagfyr 2013.

2 Rydym wedi amcangyfrif nifer y staff yn Ebrill 2010 gan ddefnyddio niferoedd staff cyfwerth ag amser llawn o'r cyfrifon blynyddol ar ôl eu harchwilio a Chyfrifon y Llywodraeth Gyfan, gan ddefnyddio ffactor trosi yn seiliedig ar ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn y DU. Fe wnaethom ddechrau gyda ffigurau cyfwerth ag amser llawn ar gyfer Ebrill 2010 ar gyfer yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru a'r heddlu a gwasanaethau tân ac achub. Nid oedd y data hyn ar gael ar gyfer y GIG a 'chyrff cyhoeddus eraill' ac felly cymerasom fel amcangyfrif gorau gyfartaledd niferoedd y staff yn 2009-10.

3 O ran nifer a chost ymadawiadau cynnar o 'gyrff cyhoeddus eraill', cynhwysir yma ymadawiadau o Gyfoeth Naturiol Cymru, a gafodd ei greu ar 1 Ebrill 2013 pan ddiddymwyd Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Mae'r gweithlu ar y cychwyn yn cynnwys niferoedd staff ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, ond ni chynhwysir Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gan nad oedd data ar gael heblaw fel rhan o ddata Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei chyfanrwydd (Atodiad 1).


*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

1.5 Nifer yr ymadawiadau cynnar yn 2012-13 oedd 2,202, sydd yn sylweddol is na niferoedd 2010-11 a 2011-12 (Ffigur 3). Pan ofynasom i'r cyrff cyhoeddus am ddata ar gyfer 2013-14, nid oedd y data hyn ond yn cynnwys ymadawiadau cynnar y cytunwyd arnynt hyd at 31 Rhagfyr 2013. Fodd bynnag, fe wnaethom gasglu data ar nifer yr holl ymadawiadau cynnar ar gyfer 2013-14 oddi wrth y datgeliadau yng nghyfrifon blynyddol cyrff cyhoeddus. Mae'r datgeliadau yn y cyfrifon yn awgrymu cynnydd sylweddol yn nifer yr ymadawiadau cynnar yn chwarter olaf 2013-14, yn enwedig yn yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol. Mae datgeliadau'r cyfrifon yn cofnodi cyfanswm o 4,033 o ymadawiadau yn 2013-14 o'u cymharu â'r 1,643 ymadawiad y rhoddwyd gwybod i ni amdanynt ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd Rhagfyr 2013[10].

1.6 Pan gymerir â'r blynyddoedd blaenorol, mae nifer uwch yr ymadawiadau cynnar yn y 'cyrff cyhoeddus eraill' rhwng Ebrill a Rhagfyr 2013 yn adlewyrchu creu Cyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013 a'r ad-drefnu a ddigwyddodd wedi hynny o fewn y corff hwnnw.

10 Mae'r gwahaniaeth i'w briodoli ryw ychydig i Gyngor Sir Caerfyrddin, nad oedd gennym ddata ar gyfer eu hymadawiadau cynnar am y naw mis yn arwain at Ragfyr 2013. Mae eu cyfrifon blynyddol yn dangos 197 o ymadawiadau cynnar yn 2013-14.

Ffigur 3 – Nifer yr ymadawiadau cynnar fesul blwyddyn ariannol, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013[1]




Nodiadau:

1 Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar 10,653 o'r 10,658 ymadawiad cynnar y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt a lle darparwyd data ar sail blwyddyn ariannol.

2 Nid oedd y data a gasglwyd gennym gan gyrff cyhoeddus ond yn cynnwys ymadawiadau yn nhri chwarter cyntaf 2013-14 (Ebrill hyd Ragfyr). Mae'r ffigurau a roddwyd yn y datgeliadau cyfrifon blynyddol ar gyfer y cyfan o 2013-14 yn dangos bod 4,033 o ymadawiadau cynnar rhwng y cwbl.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

1.7 Fe wnaethom ofyn i'r cyrff cyhoeddus gategoreiddio'u hymadawiadau cynnar yn ymadawiadau gwirfoddol, diswyddiadau gwirfoddol, diswyddiadau gorfodol, ymddeoliadau cynnar neu ryw fath arall (Blwch 1 ar dudalen 7). Dywedodd cyrff y GIG a'r 'cyrff cyhoeddus eraill' fod y rhan fwyaf o'u hymadawiadau – 96 y cant yn achos y GIG a 75 y cant yn achos y 'cyrff cyhoeddus eraill' – yn ymadawiadau gwirfoddol a dywedodd Llywodraeth Cymru mai dyna oedd y cyfan o'u hymadawiadau hwy (Ffigur 4). Dywedodd yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol, a'r heddluoedd a'r awdurdodau tân ac achub fod y rhan fwyaf o'u hymadawiadau yn ddiswyddiadau gwirfoddol (48 y cant ganddynt i gyd) neu ddiswyddiadau gorfodol (27 y cant ac 16 y cant yn ôl eu trefn).

Ffigur 4 – Nifer yr ymadawiadau cynnar fesul math a sector, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013[1]

| | Awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol | Cyrff y GIG | Llywodraeth Cymru | Heddlu a thân ac achub | 'Cyrff cyhoeddus eraill' | Pob sector |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Diswyddo gwirfoddol | 3,697 | - | - | 247 | 46 | 3,990 |
| Ymadael gwirfoddol | 446 | 1,170 | 977 | 23 | 196 | 2,812 |
| Diswyddo gorfodol | 2,172 | 51 | - | 83 | 15 | 2,321 |
| Ymddeol yn gynnar | 633 | - | - | 136 | 1 | 770 |
| Arall[2] | 301 | 2 | - | 25 | 3 | 331 |
| Heb ei nodi | 434 | - | - | - | - | 434 |
| Cyfanswm | 7,683 | 1,223 | 977 | 514 | 261 | 10,658 |

Nodiadau:


1 Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar y cyfan o'r 10,658 ymadawiad cynnar y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt, sef yr hyn a welir yn Ffigur 2.

2 Mae'r categori 'arall' yn cynnwys ymadawiadau oherwydd pethau fel contract tymor penodol yn dod i ben neu oherwydd salwch, lle roedd y cyflogai yn parhau i fod â hawl i daliad ymadael o dan bolisïau'r sefydliad dan sylw.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

1.8 Cawsom fod 59 y cant o'r staff a ymadawodd yn gynnar, yn ôl yr wybodaeth a roddwyd gan y cyrff cyhoeddus, yn 55 oed neu hŷn (Ffigur 5). Mae cynnydd amlwg yn nifer yr ymadawiadau ymhlith pobl 55 oed, sydd yn adlewyrchu'r ffaith fod llawer o drefniadau ymadael cynnar yn caniatáu i weithwyr dderbyn eu pensiwn yn gynnar pan gyrhaeddant yr oedran hwn. Roedd 11 y cant arall o'r staff rhwng 50 a 54 oed a 30 y cant o dan 50 oed. Cafodd pobl o oedrannau mwy amrywiol eu heffeithio yn sgil diswyddo gorfodol nag yn achos y mathau eraill o ymadawiad cynnar. Ymhlith y staff a ymadawodd oherwydd diswyddo gorfodol, 37 y cant yn unig oedd yn 55 oed neu hŷn, ond roedd pobl o'r oedran hwn yn cyfrif am 63 y cant o gyfanswm y diswyddiadau gwirfoddol a'r ymadawiadau gwirfoddol o gyfuno'r ddau fath yma o ymadawiad. Er bod staff hŷn yn fwy tebygol, efallai, o wirfoddoli i ymadael yn gynnar, mae'n bosibl hefyd y bydd cyrff cyhoeddus yn ei chael yn anodd canfod staff yn eu lle a all gynnig yr un math o wybodaeth, sgiliau a phrofiad.

Ffigur 5 – Proffil oedran ymadawiadau cynnar, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013[1]




Nodyn:

1 Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar 9,915 ymadawiad (93 y cant) o'r 10,658 ymadawiad cynnar y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt a lle darparwyd data oedran.


*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

## Roedd y costau a dalwyd ar gyfer pecynnau ymadael cynnar yn dod i gyfanswm o £254 miliwn rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013

### Mae pecynnau ymadael yn gynnar wedi costio cyfanswm o £254 miliwn. Mae'r cyfartaledd ychydig o dan £24,000 ond mae'r costau yn achos rhai unigolion cyfuwch â £492,000

1.9 Roedd costau cyrff cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer pecynnau ymadael cynnar rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013 yn £254 miliwn[11]. Roedd cyfanswm y costau y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt wedi lleihau yn sylweddol rhwng 2010-11 a 2012-13 (Ffigur 6). Fodd bynnag, mae'r cyfrifon blynyddol yn datgelu bod ymadawiadau cynnar wedi costio tua £89 miliwn i gyrff cyhoeddus yn 2013-14. Mae hynny'n adlewyrchu'r cynnydd sylweddol a fu mae'n debyg yn nifer yr ymadawiadau cynnar yn y flwyddyn gyfan os cymerir â 2012-13 (paragraff 1.5).

Ffigur 6 – Cost ymadawiadau cynnar fesul blwyddyn ariannol, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013[1]




Nodiadau:

1 Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar 10,653 o'r 10,658 ymadawiad cynnar y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt a lle darparwyd data fesul blwyddyn ariannol.

2 Nid oedd y data y gwnaethom eu casglu gan gyrff cyhoeddus ond yn cynnwys ymadawiadau yn nhri chwarter cyntaf 2013-14 (Ebrill hyd Ragfyr). Mae'r ffigurau a ddatgelwyd yn y cyfrifon blynyddol ar gyfer y cyfan o 2013-14 yn dangos bod pecynnau ymadael cynnar wedi costio tua £89 miliwn i gyrff cyhoeddus.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

11 Mae'r costau hyn yn cynnwys y pecyn a dderbyniwyd gan yr unigolyn ac unrhyw gyfraniadau ychwanegol a dalodd y cyflogwr i'r gronfa bensiwn. Gelwir y costau hyn yn gostau straen pensiwn ac maent yn digwydd os yw'r cyflogai yn cael derbyn ei bensiwn yn gynnar neu os bydd y cyflogwr yn cytuno i barhau i gyfrannu i'r gronfa bensiwn fel petai'r cyflogai yn dal yn ei swydd. Nid yw'r costau uchod yn cynnwys costau pellach a all wynebu cyrff cyhoeddus er mwyn gweinyddu ymadawiadau cynnar, ac mewn rhai achosion mae cyfraniadau at gostau cyflogeion pan fyddant yn cael cyngor cyfreithiol yn rhan o'r costau pellach hynny.

1.10 Cost gyfartalog pecynnau ymadael cynnar ar draws yr holl sectorau rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013 oedd £23,805. Fodd bynnag, roedd cost y pecynnau ymadael cynnar hyn yn amrywio, rhai yn llai na £100[12] a rhai cyfuwch â £492,000. Mae Ffigur 7 yn dangos nifer y pecynnau fesul band cost:

a Roedd 66 y cant o'r pecynnau ymadael cynnar yn £25,000 neu lai, ac ychydig dros hanner y rheini o dan £10,000.

b Roedd 22 y cant arall rhwng £25,001 a £50,000.

c Dau y cant yn unig o'r pecynnau (222) a gostiodd dros £100,000, y rhan fwyaf ohonynt yn Llywodraeth Cymru neu lywodraeth leol, a phum pecyn yn unig a gostiodd dros £250,000.

ch Cafwyd y pecyn mwyaf ar gyfer diswyddo gorfodol yn 2012-13. Roedd y pecyn hwn, oedd werth £492,000, yn cynnwys tâl diswyddo a thaliad yn lle rhybudd, ar sail cyflog blynyddol terfynol o tua £200,000. Digwyddodd yr ymadawiad oherwydd i'r aelod hwn o'r staff gael ei ddadleoli pan fu ad-drefnu yn y sefydliad, pan ad-drefnwyd y GIG yng Nghymru yn 2009.

Ffigur 7 – Pecynnau ymadael cynnar fesul band cost, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013[1]




Nodyn:

1 Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar 10,224 (96 y cant) o'r 10,658 ymadawiad cynnar y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt a lle darparwyd data costau unigol.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*


12 Roedd 104 o becynnau o dan £100, a'r rheini fel rheol mewn achosion lle cafodd staff oedd ar gyflogau isel iawn eu diswyddo yn orfodol. Efallai mai staff a weithiai ychydig yn unig o oriau, neu oriau amrywiol, oedd y rhain. Nid oedd rhai o'r pecynnau hyn yn costio dim byd, ond rydym wedi eu cynnwys yn ein dadansoddiad oherwydd fe fyddai'r cyrff cyhoeddus wedi eu cynnwys yn eu cyfrifon blynyddol.

## Er bod peth tystiolaeth fod cost gyfartalog ymadawiadau cynnar yng Nghymru yn is nag yng nghyrff cyhoeddus yr Alban yn ôl yr hyn a adroddwyd, mae'n anodd cymharu'r costau ac mae cost gyfartalog ymadawiadau Llywodraeth Cymru wedi bod yn uwch na'r hyn a adroddwyd ar gyfer adrannau Llywodraeth y DU

1.11 Mae cost gyfartalog ymadawiadau cynnar yng Nghymru yn £23,805 ac mae hynny'n is nag yng nghyrff cyhoeddus yr Alban yn ôl yr hyn a adroddwyd. Dywedodd Audit Scotland fod 14,481 o ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus yr Alban rhwng 2010-11 a 2011-12 a bod y gost gyfartalog yn £38,740[13].

1.12 Mae cost gyfartalog ymadawiadau cynnar yn amrywio'n fawr o'r naill ran i'r llall o'r sector cyhoeddus yng Nghymru ac oddi mewn i sectorau penodol (Ffigur 8). Llywodraeth Cymru oedd â'r gost gyfartalog uchaf fel sector, sef £49,983. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r gost gyfartalog, sef £33,700, y rhoddwyd gwybod amdani gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sef y cyfartaledd ar gyfer 17,800 o ymadawiadau cynnar o wahanol adrannau Llywodraeth y DU rhwng Rhagfyr 2010 a Rhagfyr 2011[14]. Fodd bynnag, roedd dadansoddiad Audit Scotland yn dangos cost gyfartalog o £46,233 ar gyfer ymadawiadau o Lywodraeth yr Alban. Cost gyfartalog ymadawiadau cynnar o'r awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol yng Nghymru oedd £18,786. Mae hyn lawer yn is na'r cyfartaledd o £37,459 a nodwyd gan Audit Scotland ar gyfer awdurdodau lleol yr Alban.

Ffigur 8 – Cost gyfartalog ymadawiadau cynnar fesul sector, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013[1]




Nodyn:

1 Mae ein dadansoddiad yn seiliedig ar bob un o'r 10,658 ymadawiad cynnar y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt - gweler Ffigur 2.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

13 *Managing early departures from the Scottish public sector,* Audit Scotland, Mai 2103.
14 *Managing early departures in central government,* Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Mawrth 2012.

1.13 Fodd bynnag, mae'n anodd gwneud cymariaethau uniongyrchol ac mae llawer o resymau pam y mae costau pecynnau ymadael cynnar yn amrywio o sector i sector a rhwng y naill gorff cyhoeddus unigol a'r llall. Yn benodol:

a Fel rheol, mae'r taliadau a gynigir pan fydd pobl yn cael eu diswyddo yn is na phan fyddant yn ymadael yn wirfoddol. Roedd gan yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol, a hefyd yr heddluoedd a'r awdurdodau tân ac achub, gyfran uwch o lawer o ddiswyddiadau ac efallai fod hynny'n egluro pam y mae cyfartaledd cost eu pecynnau yn is. Yng Nghyngor Sir Ceredigion, oedd â'r gost gyfartalog isaf o'r holl gyrff cyhoeddus, sef £9,341 y pecyn, roedd 82 y cant o'r ymadawiadau yn ddiswyddiadau.

b Gan amlaf bydd cyrff cyhoeddus yn cyfrifo pecynnau ymadael cynnar ar sail oedran, hyd gwasanaeth a chyflog blynyddol. Gan hynny, mae'n bosibl fod gwahaniaethau ym mhroffil y rhai a ymadawodd ag unrhyw gorff cyhoeddus, o safbwynt unrhyw un neu ragor o'r ffactorau hyn, yn medru egluro gwahaniaethau yng nghost gyfartalog y pecynnau. Er enghraifft, roedd cyflog cyfartalog staff a ymadawodd yn gynnar â Llywodraeth Cymru yn £35,700, o'i gymharu â chyflog cyfartalog o £24,000 ar draws yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru.

c Mae rhai cyrff cyhoeddus yn cynnig pecynnau ymadael mwy hael na'i gilydd. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus dalu o leiaf tâl diswyddo statudol sef hyd at 30 wythnos o gyflog yn ôl £464 yr wythnos[15]. Fodd bynnag, caiff pob corff cyhoeddus unigol ddewis a yw am gynnig mwy na hyn. Mae'n bosibl fod angen i rai cyrff cyhoeddus gynnig pecynnau uwch er mwyn denu ymgeiswyr, yn unol â'r amodau a'r galw yn lleol, ond fe welsom lawer o amrywiaeth yn yr amodau a'r telerau. Er enghraifft, ar gyfer diswyddo gwirfoddol, mae Heddlu De Cymru'n defnyddio ffactor o 1.73 wrth gyfrif nifer yr wythnosau ychwanegol o dâl, o'i gymharu â'r gofynion statudol, ac mae uchafswm y taliad posibl yn 52 wythnos. Mae hyn yn wahanol iawn i Heddlu Gogledd Cymru, sy'n defnyddio ffactor o 3.33 wrth gyfrif yr wythnosau ychwanegol o dâl ac yn gosod uchafswm o 66 wythnos. Wedyn, dyna Amgueddfa Genedlaethol Cymru, nad ydynt yn gosod unrhyw uchafswm ar gyfer y tâl wythnosol ac sy'n lluosi'r taliad statudol â phedwar. Cost gyfartalog pecyn yr Amgueddfa, sef £100,042, yw'r uchaf o holl becynnau'r cyrff cyhoeddus.

ch Mae rhai cyrff cyhoeddus yn cynnig mynediad cynnar i gynlluniau pensiwn ac yn talu costau straen pensiwn. Rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013, roedd 20 o'r 29 ymadawiad cynnar o Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn cynnwys costau straen pensiwn a hynny'n cyfrif am 42 y cant o'r holl gostau (£1.2 miliwn allan o £2.9 miliwn). Mae'r Amgueddfa Genedlaethol wrthi'n negydu cynllun yn lle'r un sydd ganddynt er mwyn ceisio lleihau yn sylweddol gost y pecynnau ymadael a chael gwared â chostau straen pensiwn.

15 Cyfrifir isafswm taliadau diswyddo ar hyn o bryd yn ôl y gyfraith fel 0.5 wythnos o dâl am bob blwyddyn lawn o wasanaeth os yw'r unigolyn dan 22 oed, 1 wythnos o dâl am bob blwyddyn lawn o wasanaeth os yw rhwng 22 a 41 ac 1.5 wythnos o gyflog am bob blwyddyn lawn o wasanaeth i'r rhai sy'n 41 oed neu hŷn. Gosodir uchafswm o £464 ar gyfer y tâl wythnosol ac 20 mlynedd ar gyfer hyd gwasanaeth. Mae hyn yn rhoi uchafswm o £13,920 ar gyfer y taliad statudol.

## Dywedwyd bod dau y cant o'r ymadawiadau cynnar o blith uwch reolwyr ac roedd cyfartaledd cost y pecynnau hynny ychydig o dan £71,000

1.14 Fe wnaethom ofyn i'r cyrff cyhoeddus nodi pa ymadawiadau cynnar oedd o blith 'uwch reolwyr'. Roeddem yn diffinio uwch reolwr fel 'unrhyw un sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb dros gyfarwyddo neu reoli gweithgareddau pwysig yn yr endid (ac a fyddai o ganlyniad yn cael ei ddatgelu yn yr Adroddiad ar Gyflogau yn y cyfrifon blynyddol)'[16] Mae hyn yn golygu, felly, yr haen uchaf o reolwyr ym mhob sefydliad.

1.15 Nododd y cyrff cyhoeddus fod 199 o ymadawiadau cynnar wedi bod o blith uwch reolwyr rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013, sydd yn cyfrif am ddau y cant o'r holl ymadawiadau cynnar. Gwelwyd y gyfran uchaf o ymadawiadau cynnar o blith uwch reolwyr yng nghyrff y GIG a 'chyrff cyhoeddus eraill', y naill yn bedwar y cant a'r llall yn bump y cant. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod cyfran yr ymadawiadau sydd o blith uwch reolwyr yng nghyrff y GIG yn debygol o adlewyrchu i ryw raddau ganlyniadau ad-drefnu'r GIG yng Nghymru yn 2009, yn uniongyrchol felly ac yn dilyn peth oedi.

1.16 Cyfanswm y gost wrth i uwch reolwyr ymadael oedd £14.1 miliwn (chwech y cant o gyfanswm yr holl gostau), ac roedd y gost gyfartalog yn £70,930. Fel y nodwyd ym mharagraff 1.13, bydd ffactorau fel oedran, hyd gwasanaeth a chyflog terfynol wedi dylanwadu ar gost gyfartalog ymadawiadau uwch reolwyr. Roedd cyflog cyfartalog y rhai y dywedwyd iddynt ymadael o swyddi fel uwch reolwyr yn £66,720 pan ymadawsant.

1.17 Fe wnaethom holi'r cyrff cyhoeddus a fu ganddynt unrhyw gynllun ymadael cynnar penodol ar gyfer uwch reolwyr. Un corff cyhoeddus yn unig, sef Cyngor Sir Ceredigion, a ddywedodd fod ganddynt gynllun o'r fath. Ni wnaeth y Cyngor nodi unrhyw wahaniaethau o bwys rhwng telerau'r cynllun hwn a'u trefniadau safonol.

# Ar yr amod nad oedd staff yn cael eu penodi yn lle'r rhai a ymadawodd, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, byddai cyrff cyhoeddus yn dechrau arbed costau yn sgil ymadawiadau cynnar ar ôl 10 mis ar gyfartaledd

1.18 Fe wnaethom gyfrifo'r cyfnod ad-dalu ar gyfer ymadawiadau cynnar unigol fel y cyfnod o amser nes y byddai costau'r pecyn yr un swm â'r arbedion y gallesid eu sicrhau drwy beidio â thalu cyflog ac unrhyw gyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn a ddeuai i ran y cyflogwr. Yn ymarferol, mae'n bosibl y bydd cyrff cyhoeddus yn gwneud arbedion eraill, megis arbed ar gostau offer TGCh, swyddfa a theithio a chynhaliaeth. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd cyrff cyhoeddus yn sicrhau'r cyfan o unrhyw arbedion o'r fath. Er enghraifft:

a mae'n bosibl y bydd cyrff cyhoeddus wedi defnyddio ymadawiadau cynnar er mwyn ad-drefnu i gael gwared a swyddi nad oes mo'u hangen mwyach a chyflogi staff newydd lle bo arnynt angen gweithwyr; neu er mwyn cyflogi staff ar radd is; ac

16 *Government Financial Reporting Manual 2013-14*, Trysorlys Ei Mawrhydi, Ionawr 2014.

b efallai y bydd cyrff cyhoeddus wedi canfod yn y cyfamser fod angen iddynt gyflogi staff yn lle'r rhai sydd wedi mynd, neu gyflogi staff dros dro neu ymgynghorwyr, i lenwi'r bwlch o ran sgiliau neu gapasiti a gollwyd yn sgil staff ymadael yn gynnar.

1.19 At hynny, po hwyaf y cyfnod ad-dalu, mwyaf yn y byd o bosibilrwydd sydd yna y buasai trosiant naturiol efallai wedi galluogi'r corff i leihau costau'r gweithlu beth bynnag, heb orfod talu costau ymadawiad cynnar. Er enghraifft, mae proffil oedran y staff a ymadawodd yn gynnar yn dangos y buasai llawer ohonynt yn agosáu at oedran lle caent bensiwn llawn ar ôl ymddeol, neu eu bod wedi cyrraedd yr oedran hwnnw, hyd yn oed. Fodd bynnag, mae llawer o gyrff cyhoeddus wedi bod dan bwysau i sicrhau arbedion o ran y gweithlu mewn byr o dro, fel na allent o angenrheidrwydd ddibynnu ar ddefnyddio trosiant naturiol i wneud yr arbedion. At hynny, yn sgil newidiadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn 2011, nid yw cyflogwyr yn cael rhagosod oedran ymddeol penodol oni ellir cyfiawnhau hynny mewn modd gwrthrychol.


1.20 Wedi i'r cyfnod ad-dalu ddod i ben, gall cyrff cyhoeddus ddechrau gwneud arbediad net ar y cyflog a'r cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn y buasent wedi bod yn eu talu i'r staff a ymadawodd. Ar sail y data yn ein harolwg, mae'r arbedion potensial hyn yn dod i ryw £305 miliwn y flwyddyn (£248 miliwn ar gyfer costau cyflogau a £57 miliwn mewn cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn).

1.21 Cyfartaledd hyd y cyfnod ad-dalu ar gyfer ymadawiadau cynnar yn holl gyrff cyhoeddus Cymru rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013 oedd 10 mis (Ffigur 9). Roedd gan saith deg chwech y cant o'r pecynnau gyfnod ad-dalu o 12 mis neu lai a 21 y cant arall gyfnod o rhwng 13 a 24 mis. Mae Ffigur 10 yn dangos pa niferoedd o ymadawiadau cynnar oedd yn dod o fewn ystod o wahanol gyfnodau ad-dalu.

1.22 Y 'cyrff cyhoeddus eraill' oedd â'r cyfnod ad-dalu cyfartalog uchaf sef 14 mis; yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol oedd â'r isaf sef naw mis. O ran y gwahanol gyrff cyhoeddus unigol, roedd y cyfnod ad-dalu cyfartalog uchaf yn 28 mis a'r isaf yn dri mis.

1.23 Y cyfnod ad-dalu cyfartalog ar gyfer diswyddiadau gorfodol oedd chwe mis ond roedd cyfnod ad-dalu cyfartalog ymadawiadau gwirfoddol, diswyddiadau gwirfoddol ac ymddeoliadau cynnar yn 11 mis. Mae'r gwahaniaeth hwn yn adlewyrchu'r ffaith fod telerau pecynnau diswyddo gorfodol yn llai ffafriol fel rheol. Mae hefyd yn rhan o'r rheswm pam y mae cyfnodau ad-dalu'r awdurodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn llai gan eu bod hwy wedi cofnodi mwy o ddiswyddiadau gorfodol na'r sectorau eraill (Ffigur 4).

Ffigur 9 – Cyfnod ad-dalu cyfartalog ar gyfer ymadawiadau cynnar fesul sector, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013[1,2]





Nodiadau:

1 Er mwyn cyfrifo'r cyfnod ad-dalu fe wnaethom ddefnyddio costau'r pecyn ymadael ynghyd â'r arbedion a sicrheid efallai am nad oedd angen talu cyflog na chwaith gyfraniadau cyflogwr ar gyfer yswiriant gwladol a phensiwn os oedd cyfraniadau o'r fath, ar gyfer yr aelod hwnnw o'r staff.

2 Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar 9,928 (93 y cant) o'r 10,658 ymadawiad cynnar y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt a lle darparwyd hefyd y data perthnasol fel y gellid cyfrifo'r cyfnod ad-dalu.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

Ffigur 10 – Nifer yr ymadawiadau cynnar fesul hyd cyfnod ad-dalu, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013[1]




Nodiadau:

1 Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar 9,928 (93 y cant) o'r 10,658 ymadawiad cynnar y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt a lle darparwyd hefyd y data perthnasol fel y gellid cyfrifo'r cyfnod ad-dalu

2 Mae'r rhan fwyaf o'r pecynnau sydd â chyfnod ad-dalu o fwy na 48 mis yn becynnau â gwerth isel (o dan £25,000), ond gyda chyflogau blynyddol isel iawn.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

## Er nad yw'n glir faint yn union yw cyfraniad ymadawiadau cynnar, fe ostyngodd costau cyflogau staff yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru o ryw £447 miliwn mewn termau real rhwng 2009-10 a 2013-14

### Gostyngodd costau cyflogau staff o ryw £447 miliwn mewn termau real a bu gostyngiad o ryw chwech y cant yn niferoedd y staff

1.24 Fe wnaethom goladu costau cyflogau staff ar gyfer y cyfnod o 2009-10 i 2013-14 o gyfrifon blynyddol cyrff cyhoeddus Cymru a archwiliwyd ac o Gyfrifon y Llywodraeth Gyfan[17]. Cynyddodd costau cyflogau staff yng nghyrff cyhoeddus Cymru o un y cant mewn termau arian parod rhwng 2009-10 a 2013-14, o £6.35 biliwn i £6.40 biliwn, ond fe ostyngodd o £447 miliwn (saith y cant) mewn termau real ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf mewn termau real rhwng 2010-11 a 2011-12 (Ffigur 11).


1.25 O 2011-12 ymlaen cafodd cyflogau gweithwyr yn y sector cyhoeddus a enillai dros £21,000 eu rhewi am ddwy flynedd gan Lywodraeth y DU. Roedd hyn yn berthnasol i'r rhan fwyaf o'r 58 corff cyhoeddus yn ein harolwg ni. Fodd bynnag, buasai llawer o weithwyr a enillai dros £21,000 yn dal yn gymwys i dderbyn cynnydd yn eu tâl o fewn eu band cyflog. Mae ffactorau eraill hefyd wedi arwain at gynnydd yng nghostau staffio cyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan fod cynnydd wedi bod yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr a newidiadau mewn cyfraniadau pensiwn.

1.26 Yn gyffredinol, mae'r cyrff cyhoeddus hynny sydd wedi gweld cyfran fwy o'u gweithlu'n ymadael yn gynnar wedi nodi mwy o ostyngiad yn eu costau staffio. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn ôl yr herwydd mewn costau staffio, mewn termau real – 24 y cant rhwng 2009-10 a 2013-14 – yn Llywodraeth Cymru. Ar y llaw arall, dim ond un y cant o ostyngiad, mewn termau real, a welodd cyrff y GIG yn ystod yr un cyfnod. Mae ein data yn dangos bod y 'cyrff cyhoeddus eraill' wedi cynyddu eu costau staffio o 33 y cant mewn termau real rhwng 2009-10 a 2013-14. Fodd bynnag, y prif reswm am hyn yw fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i greu yn Ebrill 2013, ac fe drosglwyddodd rhai costau staffio o Lywodraeth Cymru, yn ogystal ag o Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru bryd hynny[18]. Fodd bynnag, nid oedd costau staffio 'cyrff cyhoeddus eraill' ond yn cyfrif am ddau y cant o gyfanswm y costau ar gyfer 2013-14.

17 Fe wnaethom ddefnyddio data o gyfrifon blynyddol wedi'u harchwilio ar gyfer Cyrff y GIG, Llywodraeth Cymru, a 'chyrff cyhoeddus eraill'. Defnyddiwyd Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan ar gyfer yr awdurdodau lleol ac awdurdodu'r parciau cenedlaethol ac ar gyfer yr heddluoedd a'r awdurdodau tân ac achub. Y rheswm am hynny oedd nad oedd y cyfrifon blynyddol yn cynnwys dadansoddiad o gostau staff yn y cyrff cyhoeddus hyn. Set o daenlenni yw Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan, a ddarperir gan Drysorlys Ei Mawrhydi i gyfuno cyfrifon y sector cyhoeddus yn y DU wedi eu harchwilio.

18 Ni lwyddasom i wahanu costau staff a weithiai i Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru oddi wrth gostau Asiantaeth yr Amgylchedd i gyd, i'w cynnwys yn ein dadansoddiad ar gyfer y cyfnod rhwng 2009-10 a 2012-13.

Ffigur 11 – Costau cyflogau staff, 2009-10 i 2013-14[1,2]




Nodiadau:


1 Cawsom y mynegai dadchwyddiant Cynnyrch Domestig Gros o gyhoeddiad Trysorlys Ei Mawrhydi *GDP deflators at market prices, and money GDP: June 2014 (y Cyfrifon Cenedlaethol Chwarterol)* ar gyfer pob un o'r pum mlynedd. Fe wnaethom ddefnyddio'r rhain i gynyddu costau staffio 2009-10 yn unol â chwyddiant er mwyn cymharu yn erbyn gwir gostau.

2 At ddibenion y dadansoddiad hwn, mae costau cyflogau yn golygu cyflogau gweithwyr parhaol a chyfanswm costau 'staff dros dro/staff eraill'.

*Ffynhonnell: Cyfrifon blynyddol y GIG, Llywodraeth Cymru a 'chyrff cyhoeddus eraill'; Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan ar gyfer awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol, yr heddluoedd a'r awdurdodau tân ac achub.*

1.27 Rydym yn amcangyfrif, pan gymherir y sefyllfa yn Ebrill 2010 â'r cyfartaledd ar gyfer 2013-14, fod cyfanswm nifer y staff yn y gwahanol gyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi lleihau o chwech y cant (Ffigur 12), o tua 285,800 i 268,500 o staff. Yr un fath ag yn ein dadansoddiad o gostau staffio, effeithiodd sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd ar y ffigurau ar gyfer niferoedd y staff yn y 'cyrff cyhoeddus eraill' (paragraff 1.26). Roedd pob sector arall wedi cofnodi lleihad cyffredinol yn nifer y staff rhwng Ebrill 2010 a 2013-14, er i bethau amrywio rhywfaint o flwyddyn i flwyddyn, fel sydd i'w weld os edrychir ar y duedd gyffredinol rhwng 2011-12 a 2012-13. Yr hyn sydd i gyfrif yn bennaf am y lleihad cyffredinol yn niferoedd y staff rhwng 2012-13 a 2013-14, er bod cynnydd cyffredinol yng nghostau cyflogau yn y cyfnod hwnnw (Ffigur 11), yw bod yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol wedi cofnodi lleihad yn nifer eu staff.

Ffigur 12 – Amcangyfrif o’r newid yn niferoedd cyfartalog y staff, Ebrill 2010 tan 2013-14[1,2]




Nodiadau:

1 Fe wnaethom goladu niferoedd cyfartalog y cyflogeion a staff eraill cyfwerth ag amser llawn ar gyfer 2010-11 i 2013-14 o gyfrifon blynyddol a archwiliwyd ar gyfer cyrff cyhoeddus a Chyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Ar gyfer Ebrill 2010, fe wnaethom ddefnyddio data o Gyfrifon y Llywodraeth Gyfan ar gyfer yr awdurdodau lleol ac awdurdodau’r parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, yr heddluoedd a’r awdurdodau tân ac achub. Nid oedd data o’r fath ar gael ar gyfer y GIG a ‘chyrff cyhoeddus eraill’ ac felly fe wnaethom ddefnyddio niferoedd staff cyfartalog 2009-10 fel yr amcangyfrif gorau, fel sydd i’w weld yn Ffigur 2.

2 Fe wnaethom ddefnyddio data’r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer niferoedd mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn y DU, a niferoedd cyfwerth ag amser llawn er mwyn trosi’r data i gael amcangyfrif o’r niferoedd. Mae hyn yn ein galluogi i gymharu’r newid a welir yn niferoedd y staff a nifer yr ymadawiadau cynnar. Roedd un eithriad sef Llywodraeth Cymru, lle defnyddiasom y ffigurau misol a gyhoeddwyd ganddynt ar gyfer niferoedd eu staff; hefyd, ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn 2010-11, roedd y data a gafwyd yn cyfeirio at niferoedd staff ac nid ffigurau cyfwerth ag amser llawn.

*Ffynhonnell: Cyfrifon blynyddol y GIG, Llywodraeth Cymru a ‘chyrff cyhoeddus eraill’; Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan ar gyfer awdurdodau lleol ac awdurdodau’r parciau cenedlaethol, yr heddluoedd a’r awdurdodau tân ac achub.*

1.28 Mae cyfanswm niferoedd staff yn cynnwys cyflogeion (staff parhaol) a staff eraill (gan gynnwys staff dros dro a staff asiantaeth). Mae’r data’n dangos mwy o leihad yn niferoedd y cyflogeion, gyda chynnydd a oedd yn gwneud i fyny am hynny yn rhannol ymhlith staff eraill ar gyfer y GIG, Llywodraeth Cymru a ‘chyrff cyhoeddus eraill’. Efallai fod hyn yn arwydd bod cyrff cyhoeddus yn cyflogi mwy o staff dros dro i lenwi bylchau a adawyd wedi i staff parhaol ymadael (paragraff 1.18).


1.29 Fe wnaethom gymharu'r newid yn niferoedd y staff ers niferoedd Ebrill 2010 â nifer y staff a ymadawodd yn gynnar ym mhob sector. Er nad yw'r data efallai yn cynnwys yr un cyfnodau'n union bob tro, mae'r data'n dangos mwy o leihad yn y niferoedd na'r hyn sydd i'w briodoli i ymadawiadau cynnar yn yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol, cyrff y GIG a'r heddluoedd a'r awdurdodau tân ac achub. Fodd bynnag, yn Llywodraeth Cymru ac yn y 'cyrff cyhoeddus eraill', mae'r gostyngiad yn y niferoedd yn llai na nifer yr ymadawiadau cynnar.

## Mae cyrff cyhoeddus wedi defnyddio sawl dull arall yn ogystal ag ymadawiadau cynnar er mwyn rheoli neu leihau costau'r gweithlu a'r un a ddefnyddiwyd fwyaf yw rheoli swyddi gwag

1.30 Gofynasom i'r cyrff corff cyhoeddus a oeddent wedi gwneud defnydd helaeth, defnydd cymedrol, defnydd cyfyngedig neu ddim defnydd o gwbl o ddulliau eraill er mwyn rheoli neu leihau costau'r gweithlu (Ffigur 13). Y dulliau a enwyd amlaf oedd canolbwyntio mwy ar reoli swyddi gwag ac adleoli staff – defnyddiwyd y ddau ddull hyn gan 50 corff cyhoeddus (86 y cant) – ac yna cyfyngu ar y defnydd o staff asiantaeth/dros dro, lleihau goramser neu newid patrymau gwaith.

1.31 Dywedodd dros hanner y cyrff cyhoeddus a ddewisodd reoli swyddi gwag fod y dull hwn wedi cael ei ddefnyddio'n helaeth. Dylai rheoli swyddi gwag gymell cyrff cyhoeddus i ystyried a yw pob swydd yn angenrheidiol wrth iddynt gynllunio'r gweithlu yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, efallai na fydd rheoli swyddi gwag yn cynnig arbedion ariannol flwyddyn ar ôl blwyddyn. At hynny, os gadewir swyddi hanfodol heb eu llenwi, dim ond er mwyn arbed arian, mae'n bosibl y bydd y staff sydd gan y corff yn ysgwyddo baich ychwanegol o waith a hynny efallai yn golygu bod pobl i ffwrdd yn sâl yn amlach a bod ysbryd y staff yn isel.

Ffigur 13 – Defnydd cyrff cyhoeddus o ddulliau eraill heblaw ymadawiadau cynnar, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013[1]




Nodiadau:

1 Ni wnaethom ddiffinio defnydd helaeth, cymedrol a chyfyngedig er mwyn caniatáu i gyrff cyhoeddus farnu pa mor bwysig yw pob dull, yn seiliedig ar faint y corff unigol.

2 Ein diffiniad oedd 'rhewi cyflogau/cyfyngu enillion ar gyfer rhai cyflogeion neu'r holl gyflogeion, ar ben y rhewi cyflogau cyffredinol yn y sector cyhoeddus'.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

1.32 Pan ofynnwyd iddynt nodi pa ddull oedd wedi gwneud y cyfraniad mwyaf i helpu i reoli neu leihau costau'r gweithlu, dewisodd 29 corff cyhoeddus (50 y cant) ymadawiadau cynnar. Fodd bynnag, dywedodd 25 corff cyhoeddus (43 y cant) mai rhyw ddull arall yn hytrach nag ymadawiadau cynnar oedd wedi gwneud y cyfraniad mwyaf. Y dull a ddewiswyd amlaf oedd rheoli swyddi gwag[19]. Mae Astudiaeth Achos 1 yn disgrifio rhai enghreifftiau o ddulliau a fabwysiadwyd gan gyrff cyhoeddus er mwyn rheoli neu leihau costau'r gweithlu.

Astudiaeth Achos 1 – Enghreifftiau o gyrff cyhoeddus yn defnyddio dulliau ar wahân i ymadawiadau cynnar er mwyn rheoli neu leihau costau perthynol i'r gweithlu

| Dull | Sefydliad | Manylion |
|---|---|---|
| Adleoli staff | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Mae'r Cyngor yn rhoi gweithwyr sydd mewn perygl o gael eu diswyddo mewn cronfa adleoli am rhwng 12 a 24 wythnos. Tra byddant yn y gronfa hon, bydd y Cyngor yn cynnig cyfleon adleoli iddynt bob wythnos. Bydd gweithwyr sydd yn y gronfa adleoli yn cael blaenoriaeth ar gyfer pob swydd wag. Os byddant yn mynegi diddordeb mewn unrhyw swyddi gwag addas, ac yn cael eu penodi i swydd, cânt gynnig cyfnod prawf sef pedair wythnos fel rheol. Os yw'r cyfnod prawf yn llwyddiannus, bydd y Cyngor yn cadarnhau'r gweithiwr yn y swydd. Os yw'r cyfnod prawf yn aflwyddiannus, bydd y gweithiwr yn dychwelyd i'r gronfa adleoli. Os nad yw'r gweithiwr wedi llwyddo i gael swydd erbyn diwedd y cyfnod, bydd yn cael ei ddiswyddo a thelir tâl diswyddo os yw hynny'n briodol. |
| Rheoli swyddi gwag ac adleoli staff | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | Mae panel o Gyfarwyddwyr Cynorthwyol (clinigwyr ac eraill) yn edrych yn ofalus ar bob swydd wag bob pythefnos. Er mwyn i swydd wag gael ei chymeradwyo, mae angen cwblhau ffurflen fanwl a lofnodir gan y rheolwr cyfarwyddiaeth neu gyfarwyddwr priodol. Bydd y panel swyddi gwag yn edrych yn ofalus ar y ffurflenni, gan roi sylw priodol i'r defnydd a wnaeth adrannau o ymadawiadau gwirfoddol, cynllun y gweithlu a sefyllfa ariannol yr adran. Bydd y panel hefyd yn ystyried y swyddi gwag yn erbyn rhestr adleoli a gedwir gan Adnoddau Dynol, ar gyfer gweithwyr yr effeithir arnynt gan newidiadau yn y sefydliad. Os bydd y panel yn cymeradwyo'r swydd wag a bod rhywun ar gael sy'n addas i'w adleoli, ni fydd y swydd yn cael ei hysbysebu ac fe gynigir cyfnod prawf i'r unigolyn hwnnw. |
| Rheoli swyddi gwag a rhewi recriwtio | Heddlu Gogledd Cymru | Yn gyffredinol, mae recriwtio allanol wedi'i rewi'n gyfan gwbl. Fodd bynnag, os oes raid recriwtio'n allanol, er enghraifft pan fydd swyddi gwag ymhlith staff yr heddlu, mae Panel Rheoli Pobl misol yn asesu'r rhain a'u cymeradwyo cyn iddynt gael eu hysbysebu. Mae Heddlu Gogledd Cymru hefyd yn cynnal arbrawf mewn un maes busnes drwy ddefnyddio dull grymusach gan anfon y ceisiadau hyn at y Rheolwr Busnes i ddechrau er mwyn asesu sut y gellir cyflawni gwaith y swydd wag yn fewnol. |
| Newid patrymau gwaith y gweithwyr | Estyn | Yn lle gweithio mewn swyddfeydd (yng Nghaerdydd neu'r Wyddgrug) mae staff arolygu Estyn yn gweithio o'u cartrefi. Costau adeiladau oedd y prif arbediad (cau swyddfa ranbarthol a lleihau maint y brif swyddfa), ond bu'n gyfle i arbed costau staffio hefyd drwy leihau amserau teithio a threuliau staff. Roedd cael y staff i weithio o'u cartrefi yn golygu patrymau gwaith mwy hyblyg fel y gall Estyn recriwtio o gronfa fwy o ymgeiswyr a thalu llai o gostau mudo efallai. |

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

19 Ni chafwyd ateb i'r cwestiwn hwn gan bedwar o'r cyrff cyhoeddus.

## Roedd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn rhagweld y byddent yn rhedeg cynlluniau ar gyfer ymadael yn gynnar yn 2014-15 a hefyd yn defnyddio dulliau eraill i reoli neu leihau costau'r gweithlu

1.33 Dywedodd y cyrff cyhoeddus y bydd ymadawiadau cynnar yn parhau i fod yn ddull poblogaidd o reoli neu leihau costau'r gweithlu. O'r 58 corff cyhoeddus yn ein harolwg, roedd 45 (76 y cant) yn rhagweld y byddent yn rhedeg cynllun ar gyfer ymadael yn gynnar yn 2014-15.

1.34 Dywedodd saith ar hugain o gyrff cyhoeddus (47 y cant) fod ganddynt gynlluniau i ddefnyddio dulliau heblaw ymadawiadau cynnar fel rhan bwysig o'u hymdrechion i reoli neu leihau costau'r gweithlu yn 2014-15. Y tri dull arall a enwyd amlaf oedd lleihau'r defnydd o oramser (21 corff cyhoeddus), canolbwyntio mwy ar reoli swyddi gwag (20 corff cyhoeddus) ac adleoli staff fel y byddent yn gweithio mewn maes newydd (18 corff cyhoeddus).

1.35 Gofynasom i'r cyrff cyhoeddus faint o staff roeddent yn disgwyl fyddai'n gweithio iddynt ym mis Mawrth 2014 a mis Mawrth 2015, a beth oedd costau disgwyliedig eu cyflogau yn 2013-14 a 2014-15. Gan ddibynnu pryd yr ymatebasant i'n harolwg, buasai rhai cyrff cyhoeddus wedi bod mewn sefyllfa i roi union nifer y staff ym mis Mawrth 2014 a chostau gwirioneddol cyflogau ar gyfer 2013-14. O'r cyrff cyhoeddus hynny a ddarparodd y data angenrheidiol i allu cymharu, cawsom fod y mwyafrif (28 o 39) yn disgwyl gweld lleihad yn nifer y staff rhwng 2013-14 a 2014-15, ond bod nifer tebyg (23 o 44) yn rhagweld cynnydd yng nghostau cyflogau. Gallai sawl peth fod yn gyfrifol am gynnydd yng nghostau cyflogau:

a pwysau chwyddiant ar gyflogau, wedi i'r cyfnod o rewi cyflogau yn y sector cyhoeddus ddod i ben;

b pob dull arall posibl o reoli costau wedi'i gynnig eisoes;

c nifer y staff wedi'i leihau'n ormodol am fod gormod o bobl wedi ymadael yn gynnar; a

ch chynnydd yn y staff er mwyn newid cymysgedd sgiliau neu gost y gweithlu presennol.

# Rhan 2

At ei gilydd, mae'n ymddangos bod ymadawiadau cynnar wedi cael eu llywodraethu'n dda, er nad oedd pob cynllun yn cydymffurfio'n llawn ag egwyddorion arferion da



2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried sut y mae cyrff cyhoeddus wedi rheoli eu trefniadau ar gyfer ymadawiadau cynnar, ar sail yr atebion a roesant i'n harolwg, y cwestiynau pellach a ofynasom a lle bo hynny'n berthnasol unrhyw dystiolaeth eilaidd oedd ar gael.

2.2 O'r 58 corff cyhoeddus yn ein harolwg, dywedodd 47 fod ganddynt o leiaf un cynllun ymadael cynnar penodol am amser cyfyngedig yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013. Lle bu cyrff cyhoeddus yn gweithredu mwy nag un cynllun yn ystod y cyfnod hwn, ni roesant ar ddeall fod unrhyw wahaniaethau o bwys yn y ffordd y gweithredai'r cynlluniau hynny, ar wahân i rai gwahaniaethau anorfod o safbwynt amodau a thelerau gan fod rhai cynlluniau'n wirfoddol ac eraill yn orfodol. At hynny, roedd rhai cyrff cyhoeddus wedi cynnig telerau llai ffafriol ar gyfer mathau tebyg o becyn ymadael mewn cynlluniau mwy diweddar.

2.3 Roedd rhai cyrff cyhoeddus, ar y llaw arall, wedi bod â threfniadau mwy agored ar gyfer ceisiadau unigol am ymadawiad cynnar drwy gydol y cyfnod. Mae'r dadansoddiad a gynigiwn yn y rhan hon o'r adroddiad yn cyfeirio'n bennaf at y trefniadau a ddisgrifiwyd gan y 47 corff cyhoeddus a nododd eu bod wedi gweithredu cynllun penodol am amser cyfyngedig ac, os oeddent wedi gweithredu mwy nag un cynllun, cymerwyd y cynllun y bu i'r nifer mwyaf o staff ymadael dano.

## Mae'r rhan fwyaf o ymadawiadau cynnar yn digwydd yn unol â chanllawiau neu ddeddfwriaeth sy'n benodol i'r sector dan sylw ac yn unol hefyd â pholisïau a gweithdrefnau lleol

2.4 Mae'n rhaid i ymadawiadau cynnar yn Llywodraeth Cymru a'r rhan fwyaf o gyrff eraill yn y llywodraeth ganolog ddilyn rheolau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil[20]. Mae'r cynllun hwnnw'n gosod y telerau y mae Llywodraeth Cymru'n eu defnyddio pan ddigolledir staff sy'n gymwys yng Ngwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru a chyflogeion perthnasol eraill a ddiswyddir yn orfodol neu'n wirfoddol. Mae'n rhaid i unrhyw gynllun a weithredir o dan Gynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil gael ei gymeradwyo gan Swyddfa'r Cabinet cyn ei lansio.

2.5 Pan fyddant yn ystyried unrhyw becyn ymadael cynnar arfaethedig, mae'n rhaid i gyrff y GIG sicrhau eu bod yn cadw at egwyddorion penodol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru[21]. Mae'r gofynion yn ymdrin â thri maes:

a rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;

b pwerau gwariant; ac

c atebolrwydd a gwrthdrawiad buddiannau..

20 Daeth Cynllun Digolledu newydd i rym ar gyfer y Gwasanaeth Sifil ar 22 Rhagfyr 2010. Mae'r cynllun newydd, er enghraifft, yn gosod uchafswm ar gyfer pecynnau ymadael i rai o dan oed pensiwn sef 21 mis o dâl i'r rhai sy'n ymadael yn wirfoddol a diswyddiadau gwirfoddol a 12 mis o dâl ar gyfer diswyddiadau gorfodol. Gosodir y tariff ar gyfer diswyddo gwirfoddol a gorfodol ar un mis o dâl am bob blwyddyn o wasanaeth.

21 Nodwyd y gofynion hyn mewn llythyr oddi wrth Gyfarwyddwr GIG Cymru ar y pryd at Brif Weithredwyr yr Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn Ebrill 2002.

2.6 Ar wahân i'r egwyddorion hyn, mae gan gyrff unigol y GIG hawl i wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer ymadawiadau cynnar, er bod yn rhaid i aelodau'r byrddau eu harchwilio a'u cymeradwyo fel rhan o'u trefniadau llywodraethu. Fodd bynnag, mae cyrff y GIG yn defnyddio'r Model o Gynllun Ymadael Cynnar Gwirfoddol a gyflwynwyd yn 2009 ac a adolygwyd yn 2012. Mae'r cynllun yn seiliedig ar egwyddorion cynllun Llywodraeth Cymru. Un o egwyddorion allweddol y trefniadau hyn sydd wedi hen ennill eu plwyf bellach yw fod yn rhaid i gyrff y GIG gael gwared â phob swydd a dderbyniwyd ar gyfer ymadawiad cynnar, neu swm cyfatebol o arian, er mwyn sicrhau arbediad ailddigwyddiadol. Mae holl gyrff y GIG yng Nghymru yn defnyddio'r cynllun hwn ar gyfer ymadawiadau gwirfoddol ac roedd bron y cyfan (96 y cant) o'u hymadawiadau cynnar yn y categori hwn (Ffigur 4).

2.7 Mae Llywodraeth Cymru, y llywodraeth ganolog a chyrff y GIG hefyd yn dilyn canllawiau lefel uchel ar gyfer ymdrin ag arian cyhoeddus sef Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, sy'n deillio o ganllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus a ddarparwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru fe nodir y prif egwyddorion ar gyfer delio ag adnoddau a ddefnyddir gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a dywedir ei bod yn bwysig, pan fydd gweithwyr yn ymadael yn gynnar, fod taliadau 'yn cael eu gwneud er budd y cyhoedd, yn wrthrychol a heb ragfarn'. Rhoddir hefyd ffactorau y dylid eu hystyried pan gynigir ychwanegiad neu 'daliad diswyddo arbennig' mewn achosion unigol.

2.8 Mae gan yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol hawl i wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer staff sy'n ymadael yn gynnar. Fel rheol byddant yn defnyddio adrannau 111 a 112, Deddf Llywodraeth Leol 1972, er mwyn cael y pwerau angenrheidiol i wneud trefniadau gwirfoddol. Bydd taliadau a wneir o dan drefniant gwirfoddol yn unol â:

a faint y mae'r unigolyn yn fodlon ei dderbyn; a

b beth y mae'r cyflogwr yn gallu ei gyfiawnhau ar sail gwerth am arian i'r trigolion a'r rhai sy'n talu treth y cyngor.

2.9 Mae rheoliadau Llywodraeth Leol[22] yn rheoli pa iawndal y caiff awdurdodau ei roi i weithiwr y daw ei gontract i ben oherwydd ei fod yn ddi-alw-amdano. Gellir talu hyd at 104 wythnos o gyflog yn ôl y rheoliadau.

2.10 Mae rheoliadau Llywodraeth Leol hefyd yn berthnasol i staff cefn swyddfa yn yr heddlu a chyrff tân ac achub – mae'r swyddogion hyn yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. O ran heddweision, mae rheoliadau ar gyfer heddluoedd sydd yn caniatáu cynlluniau ymadael gwirfoddol, yn seiliedig i raddau helaeth ar delerau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil[23]. Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn caniatáu i'r heddlu fynnu bod pob heddwas is na Phrif Swyddog yn ymddeol yn gynnar os oes ganddynt o leiaf 30 mlynedd o wasanaeth. Mae gan awdurdodau tân ac achub hawl i wneud eu trefniadau eu hunain i ddiffoddwyr tân ymadael yn gynnar.

2.11 Mae naw o 10 Corff y GIG yng Nghymru, ynghyd â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chwaraeon Cymru, wedi derbyn arian ad-daladwy gan gynllun Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru i'w galluogi i gynnig pecynnau ymadael cynnar. Gan eu bod wedi derbyn arian o'r fath mae'n rhaid gwneud gwaith monitro ychwanegol a rhoi adroddiadau i Lywodraeth Cymru (Astudiaeth Achos 2).

22 Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) 2006
23 Rheoliadau Pensiynau'r Heddlu 1987 a Rheoliadau Pensiynau'r Heddlu (Diwygiad Rhif 2) 2012

Astudiaeth Achos 2 – Talu am ymadawiadau cynnar drwy gyfrwng cynllun Buddsoddi i Arbed

Rhwng 2010-11 a 2012-13, cyfrannodd Buddsoddi i Arbed £17 miliwn i'r cyfanswm o £30 miliwn a dalwyd ymlaen llaw er mwyn cynnig cynlluniau ymadael yn gynnar yng nghyrff y GIG. Amcangyfrifir bod y cynlluniau hyn wedi arwain at arbedion ailddigwyddiadol o tua £33 miliwn (57 y cant i'w priodoli i Buddsoddi i Arbed). Caniatawyd £13 miliwn yn ychwanegol ar gyfer 2013-14 a 2014-15, tuag at gynlluniau oedd yn parhau yn y GIG.

Derbyniodd Cyfoeth Naturiol Cymru £3.75 miliwn yn 2013-14 a £3 miliwn arall ar gyfer 2014-15. Mae £1.5 miliwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn 2014-15 a 2015-16 ac fe ddyfarnwyd £156,000 i Chwaraeon Cymru yn 2014-15 a 2015-16. Er enghraifft, bydd arian Chwaraeon Cymru, sydd i'w ad-dalu dros gyfnod o dair blynedd, yn talu am ymadawiadau cynnar a ddylai arwain at arbedion o £500,000 cyn pen tair blynedd.

Un o amodau arian Buddsoddi i Arbed yw bod y corff cyhoeddus unigol yn rhoi adroddiad monitro misol neu chwarterol i Lywodraeth Cymru. I ddechrau, mae'n rhaid i'r cyrff roi sylwadau ynglŷn â chynlluniau ymadael cynnar unigol gan gynnwys rhagdybiaethau ar gyfer eu hariannu, yr ad-daliadau angenrheidiol a'r arbedion sydd wedi'u cynllunio. Dylid darparu manylion am y modd y rhoddir y cynllun ymadael cynnar ar waith a sut y cyflawnir amcanion y cynlluniau unigol a gymeradwyir, gan gynnwys arbedion a sicrhawyd ac a ddisgwylir, o'u cymharu â'r rhagolygon gwreiddiol ar gyfer gwneud arbedion pan wnaed y cais am Fuddsoddi i Arbed. At hynny, dylid cynnwys sylwadau yn amlinellu unrhyw gamau a gymerwyd i wneud iawn am ddiffyg, os nodwyd diffyg, er mwyn sicrhau bod y proffiliau ad-dalu y cytunwyd arnynt yn cael eu gwireddu.

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

2.12 Yn ogystal ag unrhyw ddarpariaethau ar gyfer y sector cyfan, roedd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus wedi datblygu eu polisïau mewnol eu hunain. Fel rheol roedd y rhain yn ymwneud â sut i weinyddu ymadawiadau, y drefn i'w dilyn pan fyddai gweithwyr yn gwneud cais am ymadael yn gynnar – er enghraifft, defnyddio achosion busnes – a'r modd y bydd y corff cyhoeddus yn prosesu ceisiadau.

2.13 Gofynasom i archwilwyr lleol a oeddent wedi ystyried y trefniadau ymadael yn gynnar yn y cyrff cyhoeddus unigol, fel rhan o'r gwaith o archwilio'r cyfrifon yn flynyddol neu, os oedd hynny'n berthnasol, drwy raglenni archwilio perfformiad yn lleol. Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith ar gyfrifon a wnaed gan archwilwyr lleol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio a gwerthuso effeithiolrwydd y dulliau o reoli gweinyddiaeth a systemau o fewn y broses ddiswyddo, a sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn dilyn y prosesau statudol a mewnol pan oedd staff yn ymadael yn gynnar. Mewn rhai cyrff cyhoeddus, roedd hyn yn cynnwys cynnal prawf i archwilio taliadau a wnaed bob blwyddyn a sicrhau eu bod yn unol â threfniadau'r cyrff cyhoeddus.

2.14 Nid yw ein timau archwilio ni wedi canfod unrhyw bryderon penodol wrth edrych ar y modd y mae trefniadau ymadael cynnar cyrff cyhoeddus yn cael eu llywodraethu yn gyffredinol. Er hynny, rhoddwyd sylw mawr yn y cyfryngau i ambell enghraifft lle mae archwilwyr wedi adolygu trefniadau pecynnau ymadael rhai uwch swyddogion unigol.

## Er bod cyrff cyhoeddus at ei gilydd wedi cadw mewn cof yr angen i gynllunio eu gweithlu wrth iddynt ystyried effaith ymadawiadau cynnar, mae rhai wedi defnyddio meini prawf mwy trwyadl wrth wneud achosion busnes na'i gilydd

2.15 Gofynasom i'r cyrff cyhoeddus a oeddent wedi gosod targedau ar gyfer lleihau'r gweithlu unrhyw bryd rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013. O'r 31 corff cyhoeddus a oedd wedi gosod targed i'r sefydliad cyfan, 15 yn unig a nododd fod y targed wedi'i gyrraedd yn llawn. Rhai ffactorau penodol a oedd wedi rhwystro cyrff rhag cyrraedd y targedau oedd cynnydd yn y gwaith yr oedd angen i'r sefydliad ei wneud, yr angen i ddal eu gafael ar bobl oedd â sgiliau addas a'r anhawster o dalu pensiynau a chynyddrannau cyflog.

2.16 Gofynasom hefyd a oedd cyrff cyhoeddus wedi gosod cyllideb benodol ar gyfer costau, targedau ar gyfer arbedion cost neu dargedau ar gyfer nifer y gweithwyr y bwriadent iddynt ymadael o dan y cynllun ymadael cynnar a ddefnyddient amlaf. Yn hytrach na gosod targedau a chyllidebau ffurfiol, roedd y rhan fwyaf o'r cyrff cyhoeddus wedi dilyn trefn fwy hyblyg, gan ddefnyddio achosion busnes unigol gan amlaf i gefnogi'r achos pan ystyrid ymadawiad cynnar.

2.17 O'r 32 corff cyhoeddus a allai ddarparu'r data angenrheidiol, cafodd dros 80 y cant o'r holl geisiadau ffurfiol am y cynllun a ddefnyddient amlaf  eu derbyn mewn naw corff. Mewn chwech o'r cyrff cyhoeddus hyn, derbyniwyd pob un o'r ceisiadau a wnaed. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, byddai rheolwyr llinell yn derbyn mynegiad dechreuol o ddiddordeb. Nid oedd neb yn cael gwneud cais ffurfiol oni bai fod y rheolwr llinell yn cefnogi hynny, ac na fuasai'r cais wedi cael ei dderbyn petai'r rheolwr llinell wedi dweud bod angen cadw'r swydd. Dywedwyd wrthym gan ddeuddeg corff cyhoeddus eu bod wedi gosod cyfyngiadau ar bwy oedd yn cael gwneud cais o dan y cynllun a ddefnyddid amlaf – er enghraifft, rhai adrannau yn unig, staff o ryw oedran neu bobl oedd wedi gwasanaethu am nifer penodol o flynyddoedd. Serch hynny, roedd cyfran y ceisiadau a gafodd sêl bendith yn dal i amrywio.

2.18 Dylid cael achos busnes clir i gefnogi unrhyw gynnig i unigolyn ymadael yn gynnar. Pan gymeradwyir yr achos busnes, dylid yn ddelfrydol ystyried y pethau a ganlyn:

- a holl gostau ychwanegol yr ymadawiad cynnar a pha swm o arian y disgwylir ei arbed;
- b unrhyw 'straen ar y gronfa'[24] a chostau 'blynyddoedd ychwanegol'[25] a wynebir gan gronfeydd pensiwn ac a godir ar y cyflogwyr, nid dim ond y costau hynny sy'n syrthio'n uniongyrchol ar gyllideb y corff cyhoeddus dan sylw;
- c costau unrhyw staff sydd eu hangen yn lle'r rhai sy'n ymadael er mwyn i'r gwaith gael ei wneud;
- ch hyd cyfnodau ad-dalu, y dylid eu cyfrifo; ac
- d effaith colli sgiliau a phrofiad yr unigolyn.

24 Mae costau straen ar bensiwn (a elwir hefyd yn gostau cyfalaf, yn aml) yn digwydd pan fydd diffyg amlwg o ran lefel yr arian y tybir sydd ei angen er mwyn darparu buddion pensiwn penodol. Bydd costau straen yn digwydd yn aml pan gaiff buddion eu tynnu i lawr yn gynt na'r disgwyl.

25 Mae pensiwn a chyfandaliad unigol yn seiliedig ar nifer y blynyddoedd y maent wedi gweithio i'r sefydliad a chyfrannu i'w cronfa bensiwn. Gan hynny, mae'n bosibl y bydd pobl yn anfodlon derbyn ymddeoliad cynnar a llai o bensiwn. Caiff cyflogwyr ddewis cynnig 'blynyddoedd ychwanegol' i annog unigolion i fynd, gan ychwanegu hyd at 10 mlynedd wrth gyfrifo'r taliadau pensiwn blynyddol a'r cyfandaliad.

2.19 O’r 47 corff cyhoeddus a oedd wedi gweithredu cynllun ymadael cynnar penodol, roedd 38 wedi mynnu cael achos busnes ar gyfer pob cais unigol, pedwar wedi cwblhau achos busnes ar gyfer rhai ymgeiswyr ond nid y cyfan, a phump – cyrff llai, lle nad oedd ond ychydig o ymadawiadau cynnar, fel rheol – heb gwblhau achosion busnes. Er enghraifft, ni wnaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gwblhau achosion busnes; roeddent o’r farn, os oedd modd fforddio’r arian oedd i’w dalu ymlaen llaw ar gyfer ymadawiad cynnar, yna y dylid ei gymeradwyo er mwyn helpu i liniaru anawsterau eraill gyda chostau. Yn wahanol iawn i hynny, dywedodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro nad oeddent ond yn cydsynio i geisiadau a fodlonai eu proses cost a budd, ar sail arbedion cyflog a hefyd o ran galluogi’r sefydliad/gwasanaeth i wneud newidiadau.

2.20 Lle defnyddid achosion busnes, roedd natur yr wybodaeth yr oedd cyrff cyhoeddus wedi’i hystyried yn amrywio, yn enwedig o ran ystyried costau ar wahân i gost uniongyrchol y pecyn ymadael. Fodd bynnag, dywedodd pob corff cyhoeddus a nododd iddynt ddefnyddio achosion busnes y dylasai’r rhain ystyried yr effaith gyffredinol o ran darparu gwasanaethau, a dywedodd pob corff heblaw un y dylasid ystyried effaith colli sgiliau penodol y gweithiwr.

2.21 Adolygodd gwasanaeth archwilio mewnol Comisiwn y Cynulliad gynlluniau ymadael cynnar y sefydliad yn 2010 a 2012; roedd 25 o staff wedi ymadael yn sgil y cynlluniau hyn yn 2010-11 a 17 yn 2011-12. Nododd yr archwilwyr mewnol fod y Comisiwn dan bwysau difrifol o safbwynt amser wrth weithredu cynllun 2010-11 gan eu bod yn gorfod torri’r gyllideb. Fodd bynnag, canfu’r adolygiad nad oedd y cofnodion yn y ffeiliau’n dangos tystiolaeth eu bod wedi paratoi cynllun busnes manwl ar gyfer y cynllun yn ei gyfanrwydd, ac nad oedd cynlluniau busnes unigol yn ystyried popeth perthnasol i gostau ac arbedion yn achos pob gweithiwr unigol. Nid oedd y cynlluniau wedi cael eu cysylltu’n glir â strategaethau Adnoddau Dynol ehangach na chynlluniau gweithlu, chwaith. Gyda chynllun 2011-12, roedd adolygiad yr archwilwyr mewnol yn cydnabod bod achos busnes manwl ar gyfer y cynllun hwn, ond yn argymell y dylid ystyried modelau cost cryfach ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol. Dywedodd Comisiwn y Cynulliad wrthym eu bod yn gadael i bawb o’u staff fynd petaent yn mynegi diddordeb mewn ymadael ac os oedd y Comisiwn yn gallu fforddio gadael iddynt fynd, gan edrych ar bob achos yn unigol. Dywedasant wrthym eu bod wedi rhoi sicrwydd i staff na fyddai neb yn cael ei ddiswyddo’n orfodol ac roedd rhyddhau pobl o dan y cynlluniau gwirfoddol yn gymorth i sicrhau na fyddai diswyddiadau gorfodol yn digwydd.

2.22 Ym mis Hydref 2012, comisiynodd Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru adolygiad mewnol o Adnoddau, Sgiliau a Hyblygrwydd. Yn ôl yr adroddiad terfynol, roedd gwybodaeth ynghylch cynllunio’r gweithlu wedi cael ei defnyddio wrth wneud trefniadau i bobl ymadael yn wirfoddol, ac roedd ceisiadau gan rai oedd

am ymadael yn gynnar o'u gwirfodd yn cael eu hystyried yn erbyn meini prawf a oedd yn cynnwys parhad busnes, pa mor hawdd y gellid cael rhywun yn eu lle a'u sgiliau unigol. Fodd bynnag, wrth sôn am broffilio adnoddau a chynllunio gweithlu, dywedodd yr adroddiad ar yr adolygiad 'fod tîm yr adolygiad wedi canfod nad oes fawr o dystiolaeth i'w gweld o waith rheoli strategol na chynllunio trefnus ar gyfer y dyfodol ar lefel gorfforaethol er mwyn  canfod mannau trafferthus, bylchau mewn sgiliau a mesurau adferol' ac 'nad yw'r rhan fwyaf o adrannau wedi cynllunio'r gweithlu mewn gwirionedd'. Canfu'r adolygiad, dros gyfnod o amser, fod llai o sylw wedi'i roi i sgiliau a phrofiad y staff a ymadawai â Llywodraeth Cymru. Er bod trefniadau ymadael cynnar wedi golygu bod modd lleihau'r gweithlu'n gyflym, daeth yr adolygiad i'r casgliad fod hyn wedi arwain at 'ddosbarthu staff yn anghyson ac anghymesur o ran niferoedd, sgiliau a phrofiad yn y rhan fwyaf o feysydd'.

2.23 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi adroddiad o'r blaen ar rai enghreifftiau penodol o effaith trefniadau ymadael cynnar Llywodraeth Cymru:


a Glastir – mewn adroddiad dyddiedig Medi 2014 ar gynllun amaeth-amgylchedd Glastir fe nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi lleihau nifer y contractau Glastir Uwch yr amcanai i'w dyfarnu ym mlwyddyn gyntaf y cynllun (o 1 Ionawr 2013 ymlaen), o 500 i 300, oherwydd bod chwe swyddog prosiect wedi ymadael o'u gwirfodd.

b Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) – canfuwyd drwy waith archwilio yn 2011-12 fod AGGCC wedi defnyddio staff ychwanegol i atgyfnerthu'r trefniadau rheoli yn rhanbarth y Canolbarth a De Cymru ac er mwyn gwneud iawn am brinder staff yno. Fodd bynnag, roedd pryder o hyd ynghylch capasiti a llwythi gwaith ym mhob rhanbarth ac roedd strategaeth leoli Llywodraeth Cymru a'r mentrau diswyddo gwirfoddol wedi gwneud pethau'n waeth. Roedd swyddogion AGGCC wedi nodi bod effeithiau trefniadau diswyddo gwirfoddol y tu hwnt i'w rheolaeth uniongyrchol hwy i raddau helaeth ac y buasai wedi bod yn well ganddynt beidio â cholli rhai o'r staff a ymadawodd fel rhan o drefniadau cyffredinol Llywodraeth Cymru[26].

2.24 Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y staff yn Llywodraeth Cymru yn 2010-11 a dechrau 2011-12 (Ffigur 14), a hynny i raddau helaeth yn adlewyrchu nifer yr ymadawiadau cynnar (Ffigur 3). Fodd bynnag, mae niferoedd y staff wedi bod yn cynyddu'n gyson ers hynny, gan gynyddu o naw y cant rhwng Ionawr 2012 a Mehefin 2014, o 5,376 i 5,853. Ym mis Medi 2014, cafodd Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ei holi gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch y cynnydd yn niferoedd y staff. Atebodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod hyn i'w briodoli, ymhlith pethau eraill, i'r ffaith fod prentisiaethau Llywodraeth Cymru wedi cael eu creu a bod rhagor o ddeddfwriaeth wedi golygu cynyddu'r adnoddau er mwyn delio â hynny.

26 Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 30 Mawrth 2012

Ffigur 14 – Nifer y staff oedd yn cael eu cyflogi gan Lywodraeth Cymru, Ebrill 2010 i Fehefin 2014




*Ffynhonnell: Gwefan Llywodraeth Cymru*

## Roedd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn defnyddio cynghorwyr neu aelodau bwrdd mewn rhyw fodd i graffu ar drefniadau ymadael cynnar

2.25 Fe wnaethom holi cyrff cyhoeddus ynghylch eu trefniadau i gymeradwyo a chraffu ar y cynllun ymadael yn gynnar a ddefnyddient amlaf, gan ofyn ymhlith pethau eraill pa ran a roddent i gynghorwyr neu aelodau bwrdd er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n rhoi gwerth am arian.

2.26 O'r 47 corff cyhoeddus oedd â chynllun ymadael cynnar, dywedodd 39 fod cyfarwyddwyr anweithredol neu gynghorwyr yn chwarae rhyw ran mewn sicrhau gwerth am arian. Roedd y trefniadau'n amrywio, gan gynnwys cael cynghorwyr neu aelodau bwrdd i gymryd rhan yn y broses ar gyfer cymeradwyo ymadawiadau unigol – er enghraifft, trwy eistedd ar y Pwyllgor Tâl, a/neu fod cynghorwyr neu aelodau bwrdd yn cymeradwyo'r cynllun ar y dechrau (Astudiaeth Achos 3).

Astudiaeth Achos 3 – Dulliau o gymeradwyo ymadawiadau cynnar unigol

**Cyngor Celfyddydau Cymru**

Defnyddid yr un broses ar gyfer pob aelod o'r staff. Cyflwynid cynigion ffurfiol i Banel a drefnid yn arbennig, sef Cadeirydd y Cyngor, un aelod arall o'r Cyngor a'r Prif Weithredwr. Roedd swyddog proffesiynol undeb llafur yn bresennol yn y cyfarfodydd.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**

Tan 2012, roedd achosion ymadael gwirfoddol yn cael eu cymeradwyo ar lefel Cyfarwyddwr Gweithredol, o leiaf, os oedd gwerth y pecyn yn isel, neu gan y Prif Weithredwr os oedd yn uwch, neu'r Pwyllgor Tâl os oedd y pecyn yn werth mwy na £25,000. Roedd yn rhaid i Lywodraeth Cymru gymeradwyo pecynnau dros £50,000, yn unol â rheolau Cynllun Ymadael Cynnar Gwirfoddol y GIG. Ers 2012, mae pob cais am ymadael yn wirfoddol yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Tâl a phecynnau dros £50,000 yn dal i orfod cael eu cymeradwyo'n unigol gan Lywodraeth Cymru.

**Awdurdod Tân ac Achub De Cymru**

Mae rheolwr llinell yr unigolyn yn sefydlu achos busnes y mae'n rhaid ei gyflwyno i uwch reolwyr i'w ystyried a'i anfon ymlaen os yw hynny'n briodol ac fe ymgynghorir hefyd â'r undebau llafur. Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn derbyn adroddiad yn rhoi manylion am y cefndir, yr achos busnes, asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, costau a buddion a'r effaith ariannol (gan gynnwys costau straen pensiwn os yw hynny'n berthnasol) a'r Awdurdod sy'n awdurdodi'r ymadawiad cynnar fel y bo'n briodol.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

## Dim ond 55 y cant o'r cyrff cyhoeddus a ddywedodd eu bod wedi cynnal rhyw fath o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y cynllun ymadael cynnar a ddefnyddient amlaf

2.27 Rhan bwysig o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw Dyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus, a ddaeth i rym yn Ebrill 2011. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried anghenion pob unigolyn yn eu gwaith arferol pan fyddant yn llunio polisïau, yn cyflwyno gwasanaethau ac yn delio â'u gweithwyr eu hunain. Nid yw'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn ei gwneud yn ofynnol o dan y gyfraith i gyrff gynnal asesiadau ffurfiol o'r effaith ar gydraddoldeb; fodd bynnag, mae gan gyrff cyhoeddus Cymru ddyletswydd benodol i wneud trefniadau i asesu effaith debygol eu gweithgareddau ar eu gallu i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb[27].

2.28 Yn ein barn ni, dylai cyrff cyhoeddus ystyried effaith eu cynlluniau ymadael cynnar ar gydraddoldeb er mwyn sicrhau nad yw pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn dioddef anfantais annheg neu'n cael eu cau allan. Gofynasom i'r cyrff cyhoeddus a oeddent yn cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y cynllun ymadael cynnar a ddefnyddient amlaf. O'r 47 corff cyhoeddus a atebodd, roedd 26 (55 y cant) wedi cynnal rhyw fath o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (Astudiaeth Achos 4).

27 Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

## Astudiaeth Achos 4 – Dulliau o ymdrin ag asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb

**Cyngor Celfyddydau Cymru**

Cyflwynodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i'r Cyngor ynghyd â'r cynigion ar gyfer adolygu'r sefydliad, a oedd yn cynnwys cynllun ymadael cynnar. Felly roedd modd i'r Cyngor weld y dadansoddiad o'r effaith cyn penderfynu'n derfynol ar ffurf yr adolygiad. Roedd yr asesiad o'r effaith yn dilyn fformat y cytunwyd arno ac yn dechrau gyda'r rhagdybiaeth y gallai'r cynigion gael effaith wahaniaethol (o ran cydraddoldeb) ar staff Cyngor y Celfyddydau ac ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu. Ceisiodd yr asesiad edrych ar y materion hyn yng nghyd-destun Strategaeth Cydraddoldeb Cyngor y Celfyddydau. Canfu'r asesiad nad oedd unrhyw resymau sylweddol i feddwl y byddai cynigion yr Adolygiad Sefydliadol yn cael effaith wahaniaethol ar bobl oherwydd eu hil, anabledd, rhyw, oed, crefydd/cred neu ddiffyg cred, cyfeiriadedd rhywiol nac iaith.

**Llywodraeth Cymru**

Cynigiodd Llywodraeth Cymru ei chynllun ymadael cynnar ar sail wirfoddol. Fe fonitrodd Llywodraeth Cymru'r cyfraddau amrywiaeth er mwyn ystyried ac, os yn briodol roi sylw i unrhyw effaith anghymesur, a chynhwyswyd y canfyddiadau mewn ymarfer sgrinio cydraddoldeb. Roedd y canlyniadau'n dangos bod amrywiaeth y cynllun yn gymesur â'r amrywiaeth yn y gweithlu cyffredinol.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ymarfer sgrinio cychwynnol er mwyn gweld a oedd angen asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb. Mae canllawiau mewnol y Cyngor yn nodi, os bydd y broses sgrinio'n dangos effaith negyddol uchel neu ganolig, na ellir mo'i chyfiawnhau, fod yn rhaid wedyn i'r Cyngor gynnal asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb. Gwelwyd yn sgil y broses sgrinio nad oedd angen cynnal asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y cynllun ymadael cynnar gan fod yr effaith yn isel.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

## Cafwyd cytundeb setlo mewn rhyw un o bob pump o ymadawiadau cynnar ond dim ond mewn saith y cant o'r achosion hynny y gwnaed taliad ychwanegol; roedd y gost yn rhyw £20,000 ar gyfartaledd

2.29 Yn eu hadroddiad yn 2013 ar ymadawiadau cynnar yn sector cyhoeddus yr Alban, fe eglurodd Audit Scotland y gall cytundebau setlo (Blwch 2) fod yn ddefnyddiol er mwyn amddiffyn cyrff cyhoeddus rhag her gyfreithiol mewn perthynas ag ymadawiadau cynnar. Fodd bynnag, ni chaniateir i gyrff cyhoeddus eu defnyddio i gelu cost lawn ymadawiadau cynnar rhag y cyhoedd a dylai cyrff cyhoeddus fod yn glir pa hawliau cyflogaeth y maent yn disgwyl i unigolion eu hepgor yn gyfnewid am daliadau ex gratia. At hynny, pwysleisiodd adroddiad Audit Scotland na ddylai cyrff cyhoeddus ddefnyddio cytundebau setlo i helpu i gadw chwythwyr chwiban yn dawel a chyfyngu ar atebolrwydd i'r cyhoedd. Yn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gymalau cyfrinachedd a thaliadau diswyddo arbennig yn 2013, cafwyd bod defnydd helaeth, cyfreithlon yn aml, yn cael ei wneud o gytundebau setlo ym mhob rhan o sector cyhoeddus y DU. Fodd bynnag, fe nododd yr adroddiad ddiffyg tryloywder, cysondeb ac atebolrwydd yn y defnydd a wneid ohonynt.

**Blwch 2 – Cytundebau setlo**

Mae cytundeb setlo yn gytundeb sydd yn rhwymo yn gyfreithiol, wrth i'ch cyflogaeth ddod i ben neu wedi hynny, ac sydd yn dod â'ch cyflogaeth i ben. Fe'i cydnabyddir drwy statud a dyma'r unig ffordd ddilys y gallwch 'gontractio allan' o'ch hawliau dan gyfraith cyflogaeth. Fel rheol mae'n darparu ar gyfer taliad ddiswyddo ac yn gyfnewid am hynny rydych yn cytuno i beidio â mynd ag unrhyw hawliad neu gŵyn a fydd gennych, efallai, ymhellach mewn tribiwnlys cyflogaeth.

*Ffynhonnell: Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu*

2.30 O'r 47 corff cyhoeddus a oedd wedi defnyddio cynllun penodol ar gyfer ymadael yn gynnar, dim ond 13 (28 y cant) a ddywedodd eu bod wedi defnyddio cytundebau setlo ym mhob achos. Roedd hyn yn cynnwys holl gyrff y GIG, sef 10 ohonynt. Y cyrff cyhoeddus eraill a ddywedodd eu bod wedi defnyddio cytundebau setlo ym mhob achos oedd Cyngor Caerdydd, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chwaraeon Cymru. Dywedodd Cyngor Caerdydd wrthym nad yw mwyach yn defnyddio cytundebau setlo fel trefn arferol, o fis Ionawr 2015 ymlaen. Dywedodd 14 corff cyhoeddus arall (30 y cant) eu bod wedi defnyddio cytundebau setlo mewn rhai achosion, a phum corff cyhoeddus arall wedyn (11 y cant) eu bod yn caniatáu cytundebau setlo ond nad oeddent, yn ymarferol, wedi'u defnyddio.

2.31 O'r 32 corff cyhoeddus a wnaeth beth defnydd o gytundebau setlo, dywedodd 22 (69 y cant) eu bod wedi sefydlu polisi clir ar gyfer eu defnyddio. Ar sail y data a gyflwynwyd i ni am ymadawiadau cynnar unigol, cawsom fod cytundeb setlo wedi'i wneud mewn 21 y cant o'r ymadawiadau cynnar unigol (Ffigur 15).

Ffigur 15 – Defnydd cyrff cyhoeddus o gytundebau setlo ar gyfer ymadawiadau cynnar

| | Cyrff y GIG | 'Cyrff cyhoeddus eraill' | Heddlu a thân ac achub | Awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol | Llywodraeth Cymru[1] | Pob sector |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Do | 951 | 55 | 19 | 1,205 | - | 2,230 (21%) |
| Naddo | 26 | 206 | 495 | 5,672 | - | 6,400 (60%) |
| Gwybodaeth heb fod ar gael yn rhwydd | - | - | - | - | 977 | 977 (9%) |
| Dim ateb | 246 | - | - | 806 | - | 1,052 (10%) |
| Cyfanswm | 1,223 | 261 | 514 | 7,683 | 977 | 10,658 |

Nodyn:

1 Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym nad oedd gwybodaeth ar gael yn rhwydd ynghylch cytundebau setlo gyda'u 977 ymadawiad cynnar hwy, er iddynt nodi yn ein harolwg nad oeddent yn caniatáu cytundebau setlo o dan eu cynllun ymadael cynnar diweddaraf, sef y cynllun a ddefnyddiwyd ar gyfer 539 o'u hymadawiadau.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

2.32 Gofynasom i'r cyrff cyhoeddus a oedd unigolion yn derbyn taliad ychwanegol fel rhan o'u cytundeb setlo. O'r 2,230 o becynnau ymadael cynnar y dywedwyd eu bod yn cynnwys cytundeb setlo, dywedodd y cyrff cyhoeddus fod 166 (saith y cant) yn cynnwys rhyw fath o daliad ychwanegol. Roedd gwerth y taliadau hynny'n amrywio o £300 i £84,000, gyda'r cyfartaledd yn £19,970. Mewn llywodraeth leol yr oedd bron pob enghraifft o daliad ychwanegol y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt. Mae llawer o wahanol resymau pam y mae cyrff cyhoeddus yn gwneud y taliadau hyn, sydd yn digwydd weithiau yn sgil amgylchiadau cymhleth. Gwnaed y taliad mwyaf, sef £84,000, yn dilyn proses ddisgyblu gymhleth ac roedd y cyngor dan sylw o'r farn bod gwneud taliad ychwanegol yn rhoi gwell gwerth am arian na wynebu tribiwnlys cyflogaeth costus a gymerai lawer o amser swyddogion.

## Mae amryw o wahanol gyfyngiadau ar ailgyflogi pobl sy'n ymadael yn gynnar o gyrff cyhoeddus yng Nghymru

2.33 Dylai polisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymadael yn gynnar nodi'n glir a oes unrhyw gyfyngiadau ar ddychwelyd i gyflogaeth yn y corff cyhoeddus dan sylw neu'r sector cyhoeddus. Gofynasom i'r cyrff cyhoeddus a oedd unrhyw gyfyngiadau ar ailgyflogi ac os felly pa rai, yn y cynllun a ddefnyddid amlaf ganddynt ar gyfer ymadael yn gynnar. Cawsom fod amryw o gyfyngiadau penodol yn y gwahanol sectorau (Ffigur 16).

Ffigur 16 – Cyfyngiadau ar ailgyflogi a osodir fel rhan o drefniadau ymadael yn gynnar

| Sector/cynllun | Cyfyngiad |
|---|---|
| Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil | Os caiff unigolyn ei ailgyflogi mewn corff cyhoeddus a ddaw o dan drefniadau pensiwn a digolledu'r Gwasanaeth Sifil cyn pen 28 diwrnod wedi iddo adael ei gyflogwr presennol, bydd ei daliad digolledu'n cael ei ddileu a bydd y gwasanaeth yn cael ei drin fel gwasanaeth di-dor a bydd yn rhaid i'r unigolyn ad-dalu'r swm digolledu yn llawn. Os caiff ei ailgyflogi mewn corff cyhoeddus a ddaw o dan drefniadau pensiwn a digolledu'r Gwasanaeth Sifil ar ôl y cyfnod o 28 diwrnod, ond cyn pen a) chwe mis, neu b) cyfnod tybiannol y taliad digolledu, pa un bynnag sydd leiaf, bydd yn rhaid iddo ad-dalu'r taliad digolledu pro rata. |
| GIG | Mae GIG Cymru wedi gosod cyfyngiadau ar hawl pobl i ddychwelyd i weithio i un o gyrff y GIG yng Nghymru. Fel rhan o amodau unrhyw ymadawiad gwirfoddol, mae'n rhaid i'r unigolyn dan sylw gytuno i beidio â cheisio dychwelyd i gyflogaeth yn y GIG (yng Nghymru) cyn pen cyfnod sy'n cyfateb i nifer y misoedd o dâl y mae ei daliad digolledu yn cyfateb iddo (mae taliadau digolledu yn seiliedig ar un mis o dâl am bob blwyddyn o wasanaeth cymwys a gwblhawyd gyda'r GIG, hyd at uchafswm o 12 mis o dâl) a thri mis ar ben hynny, a chydag isafswm cyfnod o bedwar mis. |
| Awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol | Mae Gorchymyn (Addasu) Taliadau Diswyddo (Parhad Cyflogaeth mewn Llywodraeth Leol, etc.) (Diwygiad) 2010 yn ddilys ar gyfer y sectorau hyn. Mae'r Gorchymyn yn cyfyngu ar y taliadau diswyddo a delir i bobl sy'n dechrau gweithio i gorff cyhoeddus arall a ddaw o dan y Gorchymyn Addasu Taliadau Diswyddo. Dywed y ddeddfwriaeth, os bydd cyflogai a gafodd rybudd diswyddo yn derbyn cynnig o swydd gan gyflogwr arall a ddaw o dan y Gorchymyn (e.e. awdurdod lleol arall) cyn i'w gyflogaeth ddod i ben, a'i fod yn dechrau ar y swydd honno cyn pen pedair wythnos wedi i'w hen swydd ddod i ben, na fydd wedyn yn cael taliad diswyddo ac y bydd parhad ei gyflogaeth yn cael ei drosglwyddo i'w swydd newydd. Os bydd y cyflogai yn derbyn taliad diswyddo ac yn dechrau gweithio i'r cyflogwr newydd fwy na phedair wythnos ar ôl darfod yn ei hen swydd, yna ni fydd ei wasanaeth yn ddi-dor. |

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*

2.34 Dywedodd rhai awdurdodau lleol wrthym eu bod wedi gosod cyfyngiadau pellach. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi datblygu rheolau sydd yn dweud na chaiff neb sy'n ymddeol yn gynnar o'i wirfodd ac sy'n derbyn pensiwn ddychwelyd i gyflogaeth y Cyngor. Os bydd yr unigolyn yn ymadael drwy ymddeoliad cynnar gwirfoddol ond heb bensiwn, ni chaiff ddychwelyd i weithio gyda'r Cyngor am ddwy flynedd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi penderfynu peidio â chaniatáu i neb sy'n ymadael yn gynnar gael ei ail-gyflogi. Er hynny, mae gan y Cyngor drefn hyblyg ar gyfer ymddeoliadau ac mewn ambell achos yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi penderfynu'n benodol eu bod am ailgyflogi 'arbenigwr' am gyfnod byr ar gyfer tasg benodol.

2.35 Ym mis Hydref 2014, ar ôl ymgynghori, fe gadarnhaodd Trysorlys Ei Mawrhydi gynigion i hawlio'n ôl daliadau ymadael cynnar pan fydd unigolyn yn dychwelyd i gyflogaeth yn y sector cyhoeddus[28]. Roedd hyn yn rhannol oherwydd y pryder a fynegwyd gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin mai un o'r prif risgiau i werth am arian, yn gysylltiedig ag ymadawiadau cynnar, oedd bod unigolion a dderbyniodd daliad er mwyn gadael y gwasanaeth sifil yn cael eu hail-gyflogi wedyn yn rhywle arall yn adrannau'r llywodraeth ganolog. O dan y cynlluniau i liniaru'r risg, byddai'n rhaid i gyflogeion yn y sector cyhoeddus ar gyflog o fwy na £100,000 ad-dalu taliadau ymadael ar sail pro rata petaent yn dychwelyd i'r un rhan o'r sector cyhoeddus cyn pen 12 mis. Dywedir mai bwriad y cynigion hyn yw sicrhau cysondeb a thegwch a gofalu bod y trethdalwr yn cael gwerth am arian. Cynhwysodd Llywodraeth y DU y cynigion yn ei Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth.

2.36 Cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol gynnig cysyniad deddfwriaethol[29] yn Ionawr 2015 i roi'r trefniadau hyn ar waith ar gyfer cyrff cyhoeddus Cymru os caiff y ddeddf ei phasio gan Senedd y DU. Yn y data a gawsom gan gyrff cyhoeddus ynghylch cyflogau terfynol, gwelir mai 28 yn unig o ymadawiadau cynnar a fu (0.3 y cant) rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013 ymhlith unigolion a enillai gyflog blynyddol o fwy na £100,000. Roedd cost yr ymadawiadau hyn yn £3.6 miliwn[30].

## Roedd ansawdd y data ar gyfer ymadawiadau cynnar yn y gwahanol gyrff cyhoeddus yn anghyson

2.37 Er bod rhai cyrff cyhoeddus yn gallu rhoi gwybodaeth inni mewn byr o dro am ymadawiadau cynnar unigol, gan gynnwys rhai cyrff lle bu llawer o ymadawiadau cynnar, fe eglurodd sawl corff cyhoeddus fod yn rhaid iddynt edrych ar gofnodion unigol neu gasglu'r wybodaeth o lawer o wahanol systemau, neu ei bod yn amhosibl iddynt roi rhai manylion inni (Atodiad 1). Dywedodd swyddogion wrthym mewn un cyngor sir eu bod am geisio cadw gwell gwybodaeth am ymadawiadau cynnar ar ôl cael y cais hwn gennym ni. Un anhawster arbennig a gâi rhai o'r cyrff cyhoeddus oedd sut i gysoni'r data a gedwid gan adrannau adnoddau dynol a chyllid ac adrannau unigol eraill.

28 *Recovery of public sector exit payments: government response to the consultation*, Trysorlys Ei Mawrhydi, Hydref 2014. I'w weld yn https://www.gov.uk/government/consultations/recovery-of-public-sector-exit-payments.
29 Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno cynnig cysyniad deddfwriaethol er mwyn cydsynio i Senedd y DU ddeddfu ar fater sydd fel rheol wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad.
30 Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar 9,928 (93 y cant) o'r 10,658 ymadawiad cynnar y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt lle darparwyd data cyflogau.

## Atodiadau

Atodiad 1 - Dulliau archwilio

Atodiad 2 - Dadansoddiad o’r data ar ymadawiadau cynnar



# Atodiad 1 - Dulliau archwilio

## Cwmpas cyffredinol ein gwaith

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau a chasgliadau yn seiliedig ar ein hadolygiad lefel uchel o'r defnydd a wnaed gan gyrff cyhoeddus o ymadawiadau cynnar er mwyn rheoli neu leihau costau'r gweithlu. Y prif faterion a ystyriwyd oedd:

- pa ran y mae ymadawiadau cynnar wedi'i chwarae, ac y byddant efallai yn parhau i'w chwarae, yn ymdrechion cyrff cyhoeddus i reoli neu leihau costau'r gweithlu;
- i ba raddau y mae cynlluniau ymadael cynnar wedi cyflawni'r hyn a ddisgwylid; ac
- a gafodd cynlluniau ymadael cynnar eu rheoli yn unol ag egwyddorion arferion da.

Gofynasom i'n cydweithwyr sy'n gwneud gwaith archwilio ariannol a pherfformiad am unrhyw wybodaeth berthnasol a gasglwyd drwy eu gwaith archwilio arferol hwy yn y cyrff cyhoeddus unigol. Nid yw'r adroddiad hwn wedi edrych ar reoleidd-dra na phriodoldeb trefniadau ymadael cynnar ar gyfer unigolion penodol. Fodd bynnag, byddai ein timau archwilio ariannol yn craffu ar drefniadau ymadael cynnar petai:

- nifer mawr o staff yn ymadael a symiau sylweddol i'w gweld yn y cyfrifon;
- uwch swyddog yn ymadael a thrafodiad i'w weld a allai fod yn sylweddol yn y cyd-destun;
- cryn berygl y bydd yr ymadawiad cynnar yn arwain at gwestiwn neu her i'r archwilydd; a/neu
- unrhyw bryderon y gallai'r corff fod yn gweithredu'n anghyfreithlon.

## Arolwg o gyrff cyhoeddus Cymru

Fe wnaethom arolwg o 58 o'r cyrff cyhoeddus mwyaf yng Nghymru a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, y GIG, awdurdodau'r parciau cenedlaethol, yr heddlu, yr awdurdodau tân ac achub a 'chyrff cyhoeddus eraill'. Yn ein harolwg ceisiwyd gwybodaeth am y modd y defnyddir cynlluniau ymadael cynnar a beth y mae'r cyrff hyn wedi'i wneud yn fwy cyffredinol yn y blynyddoedd diwethaf er mwyn lleihau neu reoli costau'r gweithlu. Buom yn trafod â Phenaethiaid Adnoddau Dynol yn Llywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chyngor Bro Morgannwg ac â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel rhan o'n gwaith cwmpasu cychwynnol ac er mwyn ein helpu i gynllunio ein harolwg.

Fe wnaethom gynnal peilot ar gyfer yr arolwg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chyngor Bro Morgannwg yn Rhagfyr 2013. Wedyn cynhaliwyd arolwg o'r cyrff cyhoeddus a ganlyn rhwng Chwefror a Mehefin 2014 a chafwyd cyfradd ymateb o 100 y cant.

| Sector | Cyrff cyhoeddus |
|---|---|
| Awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol | Pob un o'r 22 awdurdod lleol<br>Pob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol |
| GIG | Pob un o'r 10 corff GIG |
| Heddlu a thân ac achub | Pob un o'r pedwar heddlu<br>Pob un o'r tri awdurdod tân ac achub |
| Llywodraeth Cymru | Llywodraeth Cymru |
| 'Cyrff cyhoeddus eraill' | • Cyngor Celfyddydau Cymru<br>• Comisiwn y Cynulliad<br>• Cyngor Gofal Cymru<br>• Comisiynydd Plant Cymru<br>• Estyn<br>• Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru<br>• Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru<br>• Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru<br>• Amgueddfa Genedlaethol Cymru<br>• Llyfrgell Genedlaethol Cymru<br>• Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br>• Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>• Chwaraeon Cymru<br>• Comisiynydd y Gymraeg |

Gofynasom wahanol gwestiynau ynglŷn â'r cynllun ymadael cynnar yr oedd y sefydliad yn ei ddefnyddio amlaf, gan holi am:

- amcanion a chostau'r cynllun;
- sut y lluniwyd y cynllun gan gynnwys y canllawiau a ddefnyddiwyd a sut yr ymgynghorwyd arno;
- y prosesau ar gyfer gwneud cais gan gynnwys y defnydd o achosion busnes;
- prosesau llywodraethu a chymeradwyo;
- polisïau ar becynnau ymadael ac ad-daliadau; a'r
- defnydd o gytundebau setlo (Blwch 2).

Fe wnaethom holi hefyd am:

- sut yr ymdrinnid â thargedau gweithlu;
- dulliau eraill a ddefnyddid i reoli costau'r gweithlu; a
- beth y bwriedid ei wneud yn y dyfodol i reoli neu leihau costau'r gweithlu.

Os oedd arnom angen eglurhad ar unrhyw atebion, neu wybodaeth bellach yn dilyn yr atebion a gafwyd i'r arolwg, fe wnaethom ofyn am hynny drwy e-bost neu dros y ffôn.

## Dadansoddi pecynnau ymadael cynnar unigol

Gofynasom i'r un un cyrff cyhoeddus ddarparu dadansoddiad dienw o'r holl staff a ymadawodd yn gynnar ym mhob blwyddyn ariannol o 2010-11 tan 31 Rhagfyr 2013. Gofynasom am sawl math o ddata mewn perthynas â phob ymadawiad gan gynnwys:

- y flwyddyn ariannol pan gydsyniwyd i'r ymadawiad;
- y mis a'r flwyddyn yr ymadawodd y swyddog;
- ei oed pan ymadawodd;
- y math o ymadawiad sef ymadael yn wirfoddol, diswyddo gwirfoddol, diswyddo gorfodol, ymddeoliad cynnar neu ryw fath arall (Blwch 1);
- y cyflog blynyddol terfynol, cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr;
- cost y pecyn ymadael ac asesiad y corff cyhoeddus ei hun o hyd y cyfnod ad-dalu;
- a oedd yr unigolyn yn uwch reolwr ai peidio;
- ar gyfer awdurdodau lleol, a oedd y gweithiwr yn gweithio mewn ysgol;
- a wnaeth y cyflogai lofnodi cytundeb setlo ac os gwnaeth a dderbyniodd ychwanegiad at ei becyn yn sgil hynny.

Roedd y gyfradd ymateb yn 100 y cant. Fodd bynnag, nid oedd pob sefydliad yn gallu darparu'r holl ddata y gofynnwyd amdanynt. Rydym wedi nodi ym mhob rhan o'r adroddiad os nad oedd y dadansoddiad yn seiliedig ar gyfanswm nifer y pecynnau ymadael.

Lle bo modd, fe wnaethom ymdrech i gysoni'r data o'n hymarfer casglu data â datgeliadau pecynnau ymadael yn y cyfrifon oedd wedi'u harchwilio ar gyfer y cyrff cyhoeddus yn ein harolwg. Roedd y data ar gyfer tua hanner yr holl sefydliadau yn cyfateb i ddatgeliadau'r cyfrifon neu roedd y gwahaniaeth yn ddibwys. Lle roedd y data'n wahanol, roedd maint y gwahaniaeth yn amrywio. Gofynasom i'r cyrff cyhoeddus am eglurhad ac roedd y rhan fwyaf yn gallu rhoi eglurhad pellach neu gysoniad ffurfiol. Dyma rai o'r rhesymau amrywiol a roddwyd am y gwahaniaethau:

- amseru'r ddwy set o wybodaeth yn wahanol, lle roedd ymadawiadau wedi'u cynnwys mewn un flwyddyn yn y daenlen ac yn y flwyddyn flaenorol neu nesaf yn y cyfrifon;
- pobl a gymeradwywyd ar gyfer pecynnau ymadael ar ddiwedd y flwyddyn ac a oedd wedi tynnu'n ôl, wedi marw neu wedi ymadael am resymau eraill ar ôl hynny;

- gwallau yn y cyfrifon, na fuasent yn ddigon sylweddol i'r archwilwyr ariannol ofyn am eu newid; a

- thaliad yn lle rhybudd wedi'i gynnwys ar y daenlen ond nid yn y cyfrifon. Pan ofynasom am y data, gofynasom i bob taliad gael ei gynnwys yn y pecyn ymadael, sef gwir gost yr ymadawiad cynnar.

## Adolygiad o'r wybodaeth ynghylch staffio a chostau/niferoedd ymadawiadau cynnar o'r cyfrifon a archwiliwyd

Fe wnaethom gasglu data am niferoedd staff a chostau staff ym mhob sefydliad yn ein harolwg, gan ddefnyddio eu cyfrifon a archwiliwyd a Chyfrifon y Llywodraeth Gyfan ar gyfer 2009-10 i 2013-14. Yr eithriad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru, a grëwyd ar 1 Ebrill 2013 ac nad oedd felly ond yn meddu ar ddata ar gyfer 2013-14. Cafodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru eu diddymu bryd hynny.  Fe wnaethom goladu niferoedd staff a chostau staff ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru yn y cyfnod 2009-10 i 2012-13, ond nid oedd modd inni gael data ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gan nad oeddent ar gael ar wahân i ddata Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei chyfanrwydd.

Fe wnaethom drosi data am niferoedd staff o gyfwerth ag amser llawn i union niferoedd staff gan ddefnyddio cyfradd drosi. Seiliwyd y gyfradd drosi ar ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer union niferoedd staff a staff cyfwerth ag amser llawn mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn y DU (ystadegau Cyflogaeth y Sector Cyhoeddus, Mehefin 2014) ar gyfer sectorau y llywodraeth ganolog, llywodraeth leol a'r GIG. Yr eithriad oedd Llywodraeth Cymru: ar eu cyfer hwy, defnyddiasom eu ffigurau y maent yn eu cyhoeddi'n fisol ar gyfer niferoedd staff; ac ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer Ebrill 2010 a chyfartaledd 2010-11 gan fod y data hynny ar gyfer ffigurau union niferoedd yn hytrach na chyfwerth ag amser llawn.

## Arolwg llenyddiaeth

I'n helpu gyda'n gwaith, rydym wedi adolygu nifer o adroddiadau archwilio a chraffu eraill sy'n ymwneud â threfniadau ymadael yn gynnar a lleihau costau gweithlu, gan gynnwys:

- Audit Scotland, Managing early departures from the Scottish public sector, Mai 2013.

- Audit Scotland, Scotland's public sector workforce, Tachwedd 2013.

- Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, Managing early departures in central government, Gorffennaf 2012.

- Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, BBC severance packages, Rhagfyr 2013.

- Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, Confidentiality clauses and special severance payments, Rhagfyr 2013.

- Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, A framework for managing staff costs in a period of spending reduction, Awst 2010.
- Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Managing early departures in central government, Mawrth 2012.
- Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Severance and wider benefits for senior BBC managers, Gorffennaf 2013.
- Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Confidentiality clauses and special severance payments, Hydref 2013.
- Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ymchwiliad ar niferoedd a chostau staff Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2011.

Buom yn siarad â chydweithwyr yn Audit Scotland a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol er mwyn gweld a allem ddysgu unrhyw wersi oddi wrth waith tebyg a wnaed ganddynt hwy.

Rydym hefyd wedi adolygu canllawiau perthnasol i'r sector ar ymadawiadau cynnar, ar gyfer GIG Cymru, Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil a deddfwriaeth berthnasol yn ymwneud â thaliadau diswyddo statudol.

# Atodiad 2 - Dadansoddiad o'r data ar ymadawiadau cynnar

Nifer yr ymadawiadau cynnar fesul blwyddyn ariannol a sector, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013[1]

| | Awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol | Cyrff y GIG | Llywodraeth Cymru | Heddlu a thân ac achub | 'Cyrff cyhoeddus eraill' | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2010-11 | 2,196 | 356 | 628 | 236 | 49 | 3,465 |
| 2011-12 | 2,394 | 390 | 322 | 160 | 77 | 3,343 |
| 2012-13 | 1,772 | 308 | 16 | 85 | 21 | 2,202 |
| 2013-14 (hyd Ragfyr 2013) | 1,318 | 168 | 11 | 33 | 113 | 1,643 |
| Heb ei nodi | 3 | 1 | - | - | 1 | 5 |
| Cyfanswm | 7,683 | 1,223 | 977 | 514 | 261 | 10,658 |

Cost ymadawiadau cynnar fesul blwyddyn ariannol a sector, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013[1]

| | Awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol | Cyrff y GIG | Llywodraeth Cymru | Heddlu a thân ac achub | 'Cyrff cyhoeddus eraill' | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ miliwn | £ miliwn | £ miliwn | £ miliwn | £ miliwn | £ miliwn |
| 2010-11 | 47.7 | 10.9 | 29.6 | 5.2 | 2.1 | 95.6 |
| 2011-12 | 42.4 | 11.4 | 17.5 | 3.8 | 3.0 | 78.1 |
| 2012-13 | 31.4 | 9.6 | 1.1 | 1.8 | 0.9 | 44.9 |
| 2013-14 (hyd Ragfyr 2013) | 22.7 | 4.6 | 0.7 | 1.7 | 5.3 | 35.0 |
| Heb ei nodi | 0.1 | 0.1 | - | - | - | 0.2 |
| Cyfanswm | 144.3 | 36.6 | 48.8 | 12.5 | 11.5 | 253.7 |

Nodiadau:

1 Fe wnaethom gyfrifo'r ffigurau hyn gan ddefnyddio'r data a gyflwynwyd i ni gan y 58 corff cyhoeddus yn ein harolwg, ac eithrio yn achos Cyngor Sir Caerfyrddin lle defnyddiwyd y cyfrifon blynyddol o 2010-11 i 2012-13. Gan hynny nid ydym wedi cynnwys unrhyw ymadawiadau o Gyngor Sir Caerfyrddin am y cyfnod o Ebrill hyd Ragfyr 2013.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

Nifer, cost, cost gyfartalog a chyfnod ad-dalu cyfartalog ar gyfer ymadawiadau cynnar fesul corff cyhoeddus, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013

| Corff cyhoeddus | Nifer yr ymadawiadau cynnar | Cost ymadawiadau cynnar (£) | Cost pob ymadawiad ar gyfartaledd[1] (£) | Cyfnod ad-dalu cyfartalog[2] (mis) |
|---|---|---|---|---|
| **Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol** | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 385 | 8,191,444 | 21,276 | 9 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 6 | 193,550 | 32,258 | 15 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 203 | 3,292,923 | 16,221 | 8 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 103 | 1,369,078 | 13,292 | 4 |
| Cyngor Sir Caerdydd | 1,071 | 26,964,937 | 25,177 | 14 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin[3] | 434 | 8,407,066 | 19,371 | Nodyn 4 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 292 | 2,727,456 | 9,341 | 3 |
| Dinas a Sir Abertawe | 579 | 10,259,320 | 17,719 | 7 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 223 | 2,631,286 | 11,799 | 4 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 266 | 4,293,621 | 16,141 | 6 |
| Cyngor Sir y Fflint | 216 | 3,445,147 | 15,950 | Nodyn 4 |
| Cyngor Gwynedd | 184 | 2,733,217 | 14,854 | 9 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 99 | 2,535,593 | 25,612 | 13 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 225 | 4,532,421 | 20,144 | 11 |
| Cyngor Sir Fynwy | 273 | 4,956,176 | 18,154 | 8 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | 428 | 7,296,682 | 17,048 | 10 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 446 | 10,403,136 | 23,325 | 10 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | 11 | 267,707 | 24,337 | 9 |
| Cyngor Sir Penfro | 153 | 2,269,005 | 14,830 | 6 |
| Cyngor Sir Powys | 303 | 4,129,291 | 13,628 | 9 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 892 | 17,354,227 | 19,455 | 8 |
| Parc Cenedlaethol Eryri | 7 | 272,885 | 38,984 | 13 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 474 | 7,607,003 | 16,049 | 8 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 67 | 1,564,165 | 23,346 | 7 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 343 | 6,632,395 | 19,336 | 7 |
| | **7,683** | **144,329,732** | **18,786** | **9** |

| Corff cyhoeddus | Nifer yr ymadawiadau cynnar | Cost ymadawiadau cynnar (£) | Cost pob ymadawiad ar gyfartaledd[1] (£) | Cyfnod ad-dalu cyfartalog[2] (mis) |
|---|---|---|---|---|
| **GIG** | | | | |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | 135 | 5,245,639 | 38,857 | 11 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 114 | 2,660,479 | 23,338 | 9 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 325 | 10,096,223 | 31,065 | 10 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 242 | 7,925,445 | 32,750 | 10 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 163 | 3,739,563 | 22,942 | 10 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 40 | 1,385,518 | 34,638 | 10 |
| Bwrdd Addysgu Iechyd Powys | 44 | 1,460,018 | 33,182 | 10 |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | 39 | 1,165,394 | 29,882 | 8 |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 95 | 2,107,893 | 22,188 | 9 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 26 | 785,493 | 30,211 | 10 |
| | **1,223** | **36,571,664** | **29,903** | **10** |
| **Llywodraeth Cymru** | **977** | **48,833,797** | **49,983** | **13** |
| **Heddlu a Thân ac Achub** | | | | |
| Heddlu Dyfed Powys | 94 | 2,691,459 | 28,633 | 11 |
| Heddlu Gwent | 63 | 701,442 | 11,134 | 5 |
| Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | 6 | 115,358 | 19,226 | 7 |
| Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | 11 | 153,870 | 13,988 | 8 |
| Heddlu Gogledd Cymru | 141 | 5,287,494 | 37,500 | 14 |
| Awdurdod Tân ac Achub De Cymru | 21 | 726,638 | 34,602 | 14 |
| Heddlu De Cymru | 178 | 2,835,487 | 15,930 | 8 |
| | **514** | **12,511,747** | **24,342** | **10** |

| Corff cyhoeddus | Nifer yr ymadawiadau cynnar | Cost ymadawiadau cynnar (£) | Cost pob ymadawiad ar gyfartaledd[1] (£) | Cyfnod ad-dalu cyfartalog[2] (mis) |
|---|---|---|---|---|
| **'Cyrff Cyhoeddus Eraill'** | | | | |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 19 | 482,875 | 25,414 | 9 |
| Comisiwn y Cynulliad | 48 | 1,894,567 | 39,470 | 14 |
| Cyngor Gofal Cymru | - | - | - | - |
| Comisiynydd Plant Cymru | 3 | 68,669 | 22,890 | 7 |
| Estyn | 3 | 123,388 | 41,129 | 9 |
| Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru | 4 | 113,957 | 28,489 | 8 |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | 10 | 532,729 | 53,273 | 11 |
| Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru | 1 | 20,000 | 20,000 | 3 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | - | - | - | - |
| Amgueddfa Genedlaethol Cymru | 28 | 2,801,186 | 100,042 | 28 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru[5] | 96 | 3,557,826 | 37,061 | 13 |
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | 6 | 148,649 | 24,775 | 5 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | - | - | - | - |
| Chwaraeon Cymru | 33 | 1,211,933 | 36,725 | 10 |
| Bwrdd yr Iaith Gymraeg[6] | 10 | 514,350 | 51,435 | 12 |
| Comisiynydd y Gymraeg[7] | - | - | - | - |
| | **261** | **11,470,129** | **43,947** | **14** |
| **Pob sector** | **10,658** | **253,717,069** | **23,805** | **10** |

Nodiadau:

1 Fel y nodwyd ym mhrif ran yr adroddiad hwn – paragraffau 1.12-1.13 – mae cost gyfartalog ymadawiadau cynnar yn amrywio'n sylweddol yng ngwahanol rannau sector cyhoeddus Cymru ac oddi mewn i sectorau penodol. Fodd bynnag, mae'n anodd gwneud cymariaethau uniongyrchol ac mae llawer o resymau pam y mae costau pecynnau ymadael cynnar yn amrywio o sector i sector ac o'r naill gorff cyhoeddus unigol i'r llall. Rhai o'r ffactorau a fydd yn dylanwadu ar y gost gyfartalog yw'r math o ymadawiad cynnar, y telerau a gynigir a phroffil oedran, hyd gwasanaeth a chyflog y staff sy'n ymadael.

2 Fe wnaethom gyfrifo'r cyfnod ad-dalu ar sail costau'r pecyn ymadael a'r arbedion cost a sicrheid efallai drwy beidio â thalu cyflog ac unrhyw gyfraniadau y byddai'r cyflogwyr yn eu talu ar gyfer Yswiriant Gwladol a phensiwn i'r aelod hwnnw o'r staff. Yn ymarferol, gall cyrff cyhoeddus sicrhau arbedion eraill, er enghraifft costau offer TGCh, swyddfa a theithio a chynhaliaeth. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fyddai cyrff cyhoeddus yn sicrhau unrhyw rai o'r arbedion hyn yn llawn, am sawl rheswm (paragraff 1.18).

3 Mae'r ffigurau ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin yn cyfeirio at y cyfnod rhwng Ebrill 2010 a Mawrth 2013 yn seiliedig ar ddatgeliadau'r cyfrifon blynyddol rhwng 2010-11 a 2012-13. Gan hynny nid ydym wedi cynnwys unrhyw ymadawiadau ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin am y cyfnod o Ebrill i Ragfyr 2013.

4 Mae'r dadansoddiad hwn o'r ad-daliadau yn seiliedig ar 9,928 (93 y cant) o'r 10,658 ymadawiad cynnar y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt a lle darparwyd y data perthnasol fel y gellid cyfrifo'r cyfnod ad-dalu. Ni ddarparwyd data perthnasol ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin na Chyngor Sir y Fflint.

5 Mae'r ffigurau ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfeirio at ymadawiadau cynnar o 1 Ebrill 2013 ymlaen pan grëwyd y corff hwn wedi i Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gael eu diddymu.

6 Fe ddiddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 31 Mawrth 2012. Fe ddarparodd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg y wybodaeth am ymadawiadau o Fwrdd yr Iaith Gymraeg i ni.

7 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn weithredol ers 1 Ebrill 2012.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

## Trefniadau rheoli ymadawiadau cynnar Swyddfa Archwilio Cymru

Mae'r dadansoddiad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn cwmpasu 58 o gyrff cyhoeddus Cymru a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol ac nid yw'n cwmpasu ymadawiadau cynnar o Swyddfa Archwilio Cymru. Er mwyn sicrhau tryloywder, rydym wedi crynhoi isod y manylion ar gyfer trefniadau rheoli ymadawiadau cynnar Swyddfa Archwilio Cymru dros yr un cyfnod sy'n cael ei gwmpasu yn yr adroddiad hwn (mis Ebrill 2010 i fis Rhagfyr 2013).

Fe wnaed holl ymadawiadau cynnar staff Swyddfa Archwilio Cymru drwy gynlluniau ymadael gwirfoddol. Fe gafodd yr holl ymadawiadau eu rheoli o dan reolau ffurfiol Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil oedd mewn lle ar amser yr ymadawiad, mewn cytundeb â Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU.

Roedd pob ymadawiad cynnar yn sgil cynllunio'r gweithlu ac wedi'u cymeradwyo gan Bwyllgor Rheoli Swyddfa Archwilio Cymru ar sail argymhellion uwch reolwyr perthnasol. Byddai angen i unrhyw uwch reolwr oedd yn gwneud cais am ymadawiad cynnar gael cymeradwyaeth gan Bwyllgor Tâl Swyddfa Archwilio Cymru. Fe wnaed pob cais am ymadawiad cynnar drwy achos busnes, gan gymryd i ystyriaeth os fyddai'r golled o ran sgiliau allweddol yn cael effaith ar gyflawni gwasanaeth.

| | Nifer yr ymadawiadau cynnar | Cost yr ymadawiadau cynnar (£) | Cost fesul ymadawiad ar gyfartaledd (£) | Cyfnod ad-dalu cyfartalog (misoedd) |
|---|---|---|---|---|
| Swyddfa Archwilio Cymru | 22 | 1,489,702 | 67,714 | 14 |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk